# Y CARDI BACH

Papur Bro Dyffryn Taf

Cariad o beth Cardi Bach

Rhifyn 467 Ionawr 2026 Pris £1.50


## CAROLATHON

Cynhaliwyd diwrnod arbennig yng Nghaffi Beca ar ddydd Sadwrn, Rhagfyr 13eg. Daeth cannoedd ynghyd yn ystod y dydd i fwynhau gwledd o ganu di-stop o fore tan hwyr yn y Carolathon a drefnwyd gan gôr Corlan. Marathon o ganu oedd hwn, a bwriad y digwyddiad oedd codi arian tuag at Ymchwil Canser Cymru, a hynny er cof am Jill Lewis. Bu Jill yn aelod brwd a ffyddlon o Corlan ers i ni sefydlu'r côr ym mis Ionawr 2007, a bu'n ysgrifenyddes am ran helaeth o'r cyfnod hynny. Ar ôl colli Jill ym mis Mai, wedi iddi frwydro mor gryf yn erbyn canser am flynyddoedd, dymuniad y côr oedd cynnal y Carolathon yma fel teyrnged iddi. Roedd hi'n hyfryd cael cwmni ei theulu yn ystod y dydd. Cafwyd diwrnod llwyddiannus iawn, a gwerthfawrogwn gyfraniad pob un. Dywedodd nifer fawr o bobl eu bod wedi mwynhau gwrando ar y canu amrywiol a chael cyfle i gymdeithasu a hel atgofion, gan brofi naws arbennig yr ŵyl. Cychwynodd Corlan ar y canu ben bore, gan berfformio amrywiaeth o garolau traddodiadol a chaneuon Nadolig cyfoes a gwreiddiol. *Parhad ar dudalen 15.*



**Côr Corlan gyda Claire Jones, Chris Marshall a'u merch Cadi.**



**Côr Corlan.**

**Enillydd Cystadleuaeth hamper tudalen facebook Y Cardi Bach**



Nesta Howells o Bancyfelin gyda'r hamper o gynnyrch Cymreig - llongyfarchiadau iddi.

**Enillydd Clwb 200 Y Cardi Bach**



Llongyfarchiadau mawr i Mrs Doreen Adams, Llain Alaw, Gerddi'r Ffynnon, Hendy Gwyn ar ennill y wobr gyntaf o £500 ar Glwb 200 Y Cardi Bach.

## Y CARDI BACH

| | |
|---|---|
| **Golygydd, Cadeirydd a Dosbarthwr** | Eurfyl Lewis 01994 419495 |
| **Is-gadeirydd:** | Iola Wyn 07870 100831 |
| **Ysgrifennydd:** | Beti Wyn James 01994 230966 |
| **Trysorydd** | Rosemarie Davies 01994 419005 |
| **Trysorydd y Clwb '200':** | Rhian White 01994 231338 |
| **Cysodwyr:** | Jason a Gwen Lye-Phillips 07930 520564<br>46 Resevoir Road Tanerdy Caerfyrddin SA31 2ER |
| **Clonc a phosau** | John Arfon Jones 01994 240536 |
| **Cornel y Dysgwyr::** | Albie Abbott 01239 831641 |
| **Tudalen y Plant:** | Llinos Mair Thomas |
| **Llewyrch i'm Llwybr:** | Eurfyl Lewis |
| **Cornel Coginio:** | Winnie James-Phillips 01239 831754 |
| **Cornel Llên:** | Marian Thomas 01994 230121 |

Newyddion, Lluniau, Erthyglau a Hysbysebion i'w hanfon erbyn **<u>10fed</u>** o bob mis, drwy e-bost i'r Cardi Bach.
e-bost: ycardibach@btinternet.com

Nid yw'r Bwrdd Golygyddol o angenrheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a gyhoeddir yn Y Cardi Bach.


Argraffwyd gan:Gwasg Aeron Cyf. Aberaeron. 01545 571115

CYMRAEG

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru'.

# Colofn y mis

*gan Iola Wyn*

Blwyddyn Newydd dda i holl ddarllenwyr Y Cardi Bach!
Ac i'n teulu ni, mae'n bennod newydd ar ddechrau 2026, wedi i ni symud o'n cartef ym Mryncaerau, ar ôl treulio 20 mlynedd hapus iawn yno. Mae'n rhyfedd meddwl i ni gael eira go sylweddol yng nghaeaf 2005, rai misoedd wedi i ni symud i Sanclêr. Ac ugain mlynedd yn ddiweddarach, rai wythnosau wedi i ni adael, dychwelodd yr eira. Gobeithio fod pawb wedi ymdopi'n weddol, er gwaetha'r amodau heriol.

Mae'n rhyfedd gadael y cartref lle cafodd y plant eu magu, ond bydd yr atgofion yn parhau, yn enwedig y cyfeillgarwch gan bawb yn y gymuned. Ac yn yr oes sydd ohoni, mae cadw mewn cysylltiad a darganfod y newyddion diweddaraf o'r ardal mor hawdd, boed hynny drwy ddarllen y Cardi Bach yn fisol neu drwy gyfrwng y cyfryngau cymdeithasol.

Felly byddaf yn cadw golwg fanwl ar y newyddion diweddaraf, ac yn edrych ymlaen yn arw i ddychwelyd i'r fro ar gyfer Eisteddfod y Garreg Las fis Awst.

Rydym bellach wedi ymgartrefu yng Nghaerdydd, ac yn raddol bach yn dod i arfer â bywyd mewn dinas unwaith yn rhagor. Treuliais 16 mlynedd yma o gyfnod prifysgol hyd at fy nhridegau, ac mae'r brifddinas wedi newid tipyn ers 2005, rhaid cyfaddef.

Y dasg gyntaf ar ôl cyrraedd oedd dod i ddeall y drefn o gasglu sbwriel, gan fod pob cyngor yn gweithredu'n wahanol. Felly mae gennym chwe bag er mwyn didoli'r sbwriel, o'r bag ailgylchu plastig i'r bag ailgylchu papur a chardfwrdd, bocs gwydr, bocs yr ardd, bagiau bwyd a bin du. Ond rydw i'n dechrau ymgyfarwyddo, er yn gwylio pawb arall yn gosod eu bagiau y tu allan i'w cartrefi gyda'r hwyr er mwyn sicrhau fod gen i'r bagiau cywir ar yr wythnos gywir! Ond cofiwch, roeddwn i'n dal i wneud hynny yn Sanclêr!

Mae popeth yn newydd yn y tŷ newydd ar hyn o bryd, ac rydw i'n dal i deimlo fy mod ar wyliau. Dydw i'n dal ddim yn medru dod o hyd i'r swits golau yn y tywyllwch yn rhwydd. Ond mi ddaw!

---

## BLWYDDYN NEWYDD DDA



**"Rhowch galennig yn galonnog i blant bach sydd heb un geiniog"**




**Calennig**

**Blwyddyn Newydd Dda
i chi
Ac i bawb sydd yn y tŷ
Dyma yw fy nymuniad i
Blwyddyn Newydd Dda
i chi**

## GOHEBWYR LLEOL

ALMA: Margaret Evans
01994 230761
BANCYFELIN: Trefina Jones
01267 211210
tjtrefina@aol.com
CAPELI BANCYFELIN a CANA
Parch. Beti-Wyn James
beti.wyn@icloud.com
BLAENWAUN: Tegwen James
01994 448223
CAPEL MORIAH (Blaenwaun) Meinir Eynon
01437 563540
meinireynon@gmail.com
CEFNYPANT: Valerie Davies
01994 448475
vdavies55@outlook.com
CLUNDERWEN: Delyth Roblin
07882 639867
delythroblin@outlook.com
CWMBACH: Jane Evans
01994 448790
teulujames@btinternet.com
CWMFELIN MYNACH: Nansi Evans
01994 448392
EFAILWEN: Angharad Booth Taylor
01994 419221
angharad.boothtaylor@btinternet.com
GELLIWEN: Peter Crowdie
01994 230033
peter.crowdie@btinternet.com
HENDY-GWYN: Heather Jenkins
01994 240138
jenkinsh2809@gmail.com
Tabernacl Heather Jenkns
Meryl James
meryljames534@btinternet.com
HENLLAN - FALLTEG: Sian Jackson
01994 240981
jacksonfawr@btinternet.com
LOGIN a CWM MILES Meinir Eynon
01437 563540
meinireynon@gmail.com
LLANBOIDY: Jayne Young
shwldimwl@googlemail.com
LLANDYSILIO: Delyth Roblin
07882 639867
delythroblin@outlook.com
LLANGLYDWEN: Eurfyl Lewis
01994 419495
eurfyllewis@btinternet.com
LLANGYNIN: Susan Phillips
01994 231066
siwperiw@gmail.com
MEIDRIM: Patsy Lewis
01994 230369
talarwen@hotmail.com
PENYBONT: Linda Davies
01994 484657
lindadavies02061955@icloud.com
PWLLTRAP: Beti Wyn James
01994 230966
betiwynjames@aol.com
RHYDYCEISIAID: Doreen Adams
01994 240581
RHYDWILYM: Eilir Davies
01994 419649
eilirtyrhos@btinternet.com
SAN CLER: Beti Wyn James
01994 230966
betiwynjames@aol.com
TRELECH: Alyson Harries
01994 484359
alysonharries@outlook.com

# LLEWYRCH I'M LLWYBR

*gan Parchg Beti Wyn James*

**Y Chwythwr Dail**

Blwyddyn newydd dda i chi gyd!
Rwyf wedi cael tegan newydd am Nadolig (diolch i garedigrwydd y teulu), sef chwythwr dail. Mae'r peiriant yn rhoi rhyw awdurdod rhyfedd i mi wrth i mi ymaflyd â'r tomenni o ddail sy'n chwythu dros y ffens i'n gardd ni o goeden Sycamorwydden ein cymdogion! A fel petai'r dail ddim yn ddigon, daw byddin o 'helicopters' yn eu cannoedd gan gario hadau'r Sycamorwydden i lanio yn ein gardd gan gymeryd dros ein lawnt a'n patio!  Diolch am y chwythwr dail newydd. I'r gad felly!

Gyda'n brwdfrydedd arferol, dyma danio'r chwythwr a'i anelu at y dail. Yn anffodus, bu imi ddal y peiriant ar yr ongl anghywir a bu'r dail yn hedfan yn afreolus fel corwynt o'm hamgylch. Roeddwn yn dal i ddod o hyd iddynt oriau yn ddiweddarach yn cuddio  yn fy sgarff a thu mewn i hood fy hoodie!

Mae'n dda gen i ddweud fy mod wedi dysgu fy ngwers a mod bellach yn ei ddal ar yr ongl  cywir er mwyn chwythu'r dail i'r un cyfeiriad, eu corlanni a'i codi.

Onid yw bywyd o bryd i'w gilydd yn teimlo fel petai popeth yn chwythu i bob man!  Galwadau gwaith, cyfrifoldebau teuluol, tacsi i'r plant, gwaith tŷ, pwyllgorau, negeseuon ebost, negeseuon WhatsApp a thestun, llythyron, ffôn... a gellir yn hawdd teimlo ein bod yn colli trefn a rheolaeth ar y cwbwl, a cholli cyfeiriad. Mae bywyd heb gyfeiriad yn arwain at ddryswch a rhwystredigaeth.

Wrth wynebu blwyddyn newydd sbon yn ein hanes, camwn mewn i'r flwyddyn yng nghwmni Duw – yr un sy'n abl i'n helpu i gael trefn ar fywyd a chyfeiriad i'n bywyd.  Sut? Drwy ymddiried ynddo,  a gadael iddo fugeilio'n calonnau a'n meddyliau a thawelu ein pryderon.
Mae Duw yn arweinydd ffyddlon. Mae'n adnabod ein gorffennol, yn deall ein presennol ac mae eisoes wedi paratoi ein dyfodol. Efallai nad ydym yn gwybod ble bydd y ffordd yn arwain, na pha mor hir fydd y daith, ond gallwn wybod pwy sy'n dy arwain

**Gweddi**

Dad nefol, mae'n flwyddyn newydd.
Diolchwn i Ti am rodd bywyd ac am ein harwain drwy'r flwyddyn ddiwethaf.
Gosodwn y dyddiau sydd o'n blaen yn dy ddwylo cariadus.
Rho inni ddoethineb i wneud dewisiadau da,
nerth i wynebu heriau, a dewrder i dyfu'n bobl well.
Llanwa ein calonnau â tangnefedd, ein cartrefi â chariad,
a'n gwaith â phwrpas.
Cynorthwya ni i ollwng gafael ar boenau a methiannau'r gorffennol a cherdded ymlaen gyda ffydd,
gobaith, a diolchgarwch.
Boed i'r flwyddyn hon fod yn un heddychlon.
Bendithia ein cynlluniau,
cyfarwydda ein llwybrau,
a chadw ni yn agos atat drwy'r flwyddyn
Yn enw Iesu Grist
Amen.



# Colofn Llên

*gan Marian Thomas*

A fu Siôn Corn acw? Fe ddaeth â sawl llyfr yn ei sach i ni yma, y tri chyntaf yn gyfrolau hardd. Y gyntaf, **Trysorau'r Nadolig** yn flodeugerdd gan feirdd cyfoes sy'n rhannu eu hatgofion o Nadolig eu plentyndod, sydd wedi'i dylunio'n eithriadol o gywrain. Y gerdd gyntaf yw *Drws y Nadolig* gan Mererid Hopwood sy'n gyflwyniad bendigedig ond mae'n rhaid cyfaddef na chefais fawr o flas ar lawer o'r gweddill. Arna i mae'r bai am hynny siŵr o fod.

Yr ail yw **Almanac - O Fis i Fis.** Dyma drysor o gyfrol gan Ruth Morgan, y fam a'i thair merch, o Sir Gâr. Bethan Mai, sef un o'r tair, sy'n gyfrifol am y lluniau. Dim ond taro i mewn i ddarllen ambell dudalen rwyf wedi'i wneud hyd yn hyn ond byddaf yn cadw'r gyfrol hon wrth law i bori ynddi fesul mis. Mae ôl ymchwilio trylwyr yma i arferion a thraddodiadau ynghyd â rhannu cynghorion a phrofiadau. Yn y cyflwyniad mae'n nodi bod y llyfr 'i'r rhai o'n blaenau ni a'r rhai sy'n ein dilyn.' Mae gofod i ychwanegu dyddiadau perthnasol i'n teulu ninnau a dyma lyfr y byddaf yn ei drosglwyddo i'r genhedlaeth nesaf. Deallaf fod y gyfrol wedi gwerthu'n llwyr felly dim ond gobeithio bydd Gwasg y Lolfa yn cyhoeddi ail-argraffiad ohoni 'n fuan. Anrheg pen-blwydd perffaith.

**Stori'r Iaith** yw'r drydedd sef cyfres o erthyglau wedi'u golygu gan Ceri Wyn Jones. Fe'i hysbrydolwyd gan gyfres deledu am y Gymraeg, hanner ohonynt gan academyddion yn trafod agweddau ar hanes a datblygiad yr iaith a hynny am yn ail â phrofiad unigolion ohoni, fel Alex Jones, Sean Fletcher, Tudur Owen ac enwogion eraill sy'n rhannu eu cymhelliant personol nhw eu hunain i'w siarad. Yn yr erthygl gyntaf mae Llewelyn Hopwood yn crynhoi hanes datblygiad yr iaith o'i dechreuadau; Gruffudd Antur yn crynhoi arwyddocâd llawysgrifau megis Llyfr Du Caerfyrddin sy'n rhychwantu ei hanes dros sawl canrif. Lleisiau beirdd yr Oesoedd Canol yw testun Eurig Salisbury. Yna ceir effaith Deddf Uno 1536 ar y Gymraeg a'r Chwyldro diwydiannol a Brad y Llyfrau Gleision. Mae'r erthygl olaf gan Delyth Prys, merch Trefor ac Eileen Beasley a wnaeth safiad dewr yn gwrthod talu'r dreth, yn mynd â ni i fyd technoleg gan fwrw golwg ar ei dyfodol. Dylid llongyfarch y wasg newydd – *Sebra* - am lunio cyfrol mor raenus a'r lluniau ynddi yn ychwanegiad cyfoethog.

Yng ngwaelod y sach roedd sawl nofel ond gyda llond tŷ yma dros yr ŵyl ni chefais fawr o gyfle i'w darllen. Gobeithio byddaf wedi darllen ambell un erbyn y rhifyn nesaf! Roedd angen gorffen un cefais ei benthyg gan ddarllenydd brwd a oedd wedi mwynhau nofel gyntaf Gareth Thomas, **Ar Adain Cân.** Fe'i chyhoeddwyd ddwy flynedd yn ôl a'r awdur wedi'i chyflwyno er cof am ffrind iddo o'r enw George Crabb, un a ddaeth o Lundain, a chwympo mewn cariad â Chymru a'r Gymraeg, yn gomiwnydd a heddychwr. Mae'r gŵr yn cofio amdano fel person hynaws ac aelod blaenllaw o CND ac yn ysbrydoliaeth amlwg i'r stori garu hon mewn wyth rhan wedi'i gosod o 1938 i 1946. Daw Siân o'r Rhondda a George o gefndir gwbl wahanol yn Llundain. Fe gwrddon nhw tra roedd y soprano a'r feiolinydd yn hyfforddi yn yr Academi Gerdd yn Llundain. Brawd Siân, Owain yw'r heddychwr a'r comiwnydd yn y stori hon a ddychwelodd o ymladd Ffasgaeth yn Sbaen cyn dechrau'r Ail Ryfel Byd ac sy'n troi'n wrthwynebydd cydwybodol wedyn. Ymunodd George â'r awyrlu a Siân yn gantores mewn band. Llwyddir i gyfleu 'r cyfnod yn ardderchog gyda chyfeiriadau at ddigwyddiadau megis bomio Cwm-Parc. Cefais flas anghyffredin ar hon.

'Llyfrau sy'n ein gwneud yn ddynol, dyna paham y bu i Mao eu llosgi,' oedd pennawd mewn papur dydd Sul fis diwethaf ac awdur *Wild Swans,* Jung Chang yn datgan bod darllen yn meithrin empathi ac y byddai peidio â darllen yn peryglu cymdeithas wâr. Gwnewch hi'n flwyddyn dda o ddarllen yn 2026 felly i'n cadw'n gall!

---

GŴYL RHINWEDD A MOES

**Brecwast Gŵyl Ddewi**

**Caffi Beca, Efailwen**

**Bore Sul 22 Chwefror 2026 am 10 o'r gloch**

**Siaradwr Gwadd: Cleif Harpwood**

*Enwau a thâl o £12 i ysgrifenyddion y capeli erbyn dydd Iau 12 Chwefror ar yr hwyraf os gwelwch yn dda*

# Clonc a Phosau olaf John Arfon

Blwyddyn Newydd Dda i chwi gyd. Gobeihio eich bod wedi cael Nadolig wrth eich bodd a digon i'w fwyta. Yn anffodus bu'r cyfnod cyn yr Ŵyl yn greulon iawn a daeth galar mawr i lawer o deuluoedd a bydd y gadair wag ger ford y cinio Nadolig yn dod a deigryn i lygaid pawb. Ceisiwch eich gorau i gofio'r amser hapus, melys a phleserus a gawsoch yn eu cwmni dros yr holl flynyddoedd.

Rwyf innau yn teimlo'r golled o golli cymaint o ffrindiau sef Norah Heseltine a Gareth Murray, Llanboidy; Mary Llewelyn a Margaret Williams, Login; Delyth Phillips, San Cler; Sulwyn Thomas, Caerfyrddin; Rosina Thomas, Hendygwyn; Ann Murrow, Tafarnsbeit; a Hubert Phillips, Waunfawr, allawer o rai eraill nad oeddwn yn gyfarwydd â hwy. Hedd i'w llwch, atgofion annwyl amdanynt a bendith i'w teuluoedd oll.
Maddeuwch imi nad wyf wedi enwi eraill sydd wedi ein gadael yn ddiweddar, ond mae'n cydymdeimlad at bawb o'r holl deuluoedd yn ddiffuant.

Hoffwn gymeryd y siawns hefyd i ddymuno'n dda a gobeithio am adferiad buan i ffrindiau sydd yn yr ysbyty sef Dr Malcolm Holding, Hendygwyn; Graham Parry, Cwm Meils; Les Evans, Llangynin a phawb arall o'r ardal sydd yno neu heb fod yn hwylus gartref.

Fel y dywedais yn y rhifyn diwethaf, dyma'r tro olaf imi ysgrifennu colofn a rhoi posau o'ch blaen, ond mae'n rhaid rhoi atebion posau y mis diwethaf ichwi a dyma hwy:

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| O | X | O | X | O | X |
| X | O | X | O | O | X |
| X | O | X | O | X | O |
| O | X | O | X | X | O |
| X | O | O | X | O | X |
| O | X | X | o | X | O |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 3 | 2 | 1 | 6 | 4 | 9 | 7 | 8 | 5 |
| 4 | 5 | 7 | 8 | 3 | 2 | 1 | 6 | 9 |
| 8 | 9 | 6 | 7 | 1 | 5 | 2 | 3 | 4 |
| 5 | 8 | 4 | 9 | 7 | 1 | 3 | 2 | 6 |
| 6 | 3 | 9 | 5 | 2 | 8 | 4 | 7 | 1 |
| 7 | 1 | 2 | 4 | 6 | 3 | 9 | 5 | 8 |
| 1 | 6 | 8 | 2 | 9 | 7 | 5 | 4 | 3 |
| 9 | 7 | 5 | 3 | 8 | 4 | 6 | 1 | 2 |
| 2 | 4 | 3 | 1 | 5 | 6 | 8 | 9 | 7 |

**Yn y Pôs Chwilair Nadolig**, roedd y llythrennau heb ei croesi allan yn rhoi'r ateb, sef ***TAWEL NOS.***

**Yr atebion i groesair y Goeden Nadolig oedd:**

Ar Draws. 2. Ser, 3. Pwdin, 5. Nadolig, 7. Sgrialu, 12. Dawn Barddoni, 14. Cynllwyn, 18. Copa, 19. Sira, 20. Côr y Wig, 21. Braint, 22. Ysgogi, 23. Llawen.

I Lawr. I. Pendroni, 3. Pla, 4. Nai, 5. Nod, 6. Gau, 8. Robin, 9. Amryw, 10. Da. 11. Un, 13. Porfa, 14. Cacen, 15. Llwydrew, 16. Neges, 17. Trigo.

**Dyma atebion y Chwilrif X**

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2 | 8 | **3** | 6 | 5 | 1 | 4 | 9 | 7 | | | | 3 | 7 | 6 | 1 | 4 | 8 | 2 | 9 | 5 |
| 1 | 5 | 4 | 2 | 9 | 7 | 8 | 6 | 3 | | | | 4 | 5 | 1 | 2 | 9 | 7 | 8 | 6 | 3 |
| 6 | 9 | 7 | 4 | 8 | 3 | 2 | 1 | 5 | | | | 8 | 9 | 2 | 3 | 5 | 6 | 1 | 4 | 7 |
| 3 | 2 | 8 | 9 | 7 | 4 | 1 | 5 | 6 | | | | 2 | 3 | 9 | 4 | 6 | 1 | 5 | 7 | 8 |
| 4 | 1 | 9 | 5 | 3 | 6 | 7 | 8 | 2 | | | | 7 | 1 | 4 | 5 | 8 | 3 | 9 | 2 | 6 |
| 7 | 6 | 5 | 8 | 1 | 2 | 3 | 4 | 9 | | | | 6 | 8 | 5 | 7 | 2 | 9 | .3 | 1 | 4 |
| 5 | 4 | 6 | 3 | 2 | 5 | 9 | 7 | 1 | 6 | 8 | 4 | 5 | 2 | 3 | 6 | 1 | 4 | 7 | 8 | 9 |
| 5 | 7 | 2 | 1 | 4 | 9 | 6 | 3 | 8 | 2 | 1 | 5 | 9 | 4 | 7 | 8 | 3 | 2 | 6 | 5 | 1 |
| 9 | 3 | 1 | 7 | 6 | 8 | 5 | 2 | 4 | 3 | 7 | 9 | 1 | 6 | 8 | 9 | 7 | 5 | 4 | 3 | 2 |
| | | | | | | 8 | 6 | 9 | 4 | 5 | 3 | 2 | 7 | 1 | | | | | | |
| | | | | | | 7 | 4 | 5 | 8 | 2 | 1 | 6 | 3 | 9 | | | | | | |
| | | | | | | 2 | 1 | 3 | 7 | 9 | 6 | 4 | 8 | 5 | | | | | | |
| 6 | 3 | 5 | 4 | 2 | 9 | 1 | 8 | 7 | 5 | 6 | 2 | 3 | 9 | 4 | 1 | 8 | 2 | 5 | 6 | 7 |
| 9 | 7 | 1 | 6 | 3 | 8 | 4 | 5 | 2 | 9 | 3 | 8 | 7 | 1 | 6 | 9 | 5 | 4 | 3 | 8 | 2 |
| 2 | 8 | 4 | 1 | 7 | 5 | 3 | 9 | 6 | 1 | 4 | 7 | 8 | 5 | 2 | 7 | 3 | 6 | 4 | 1 | 9 |
| 5 | 1 | 3 | 2 | 9 | 7 | 6 | 4 | 8 | | | | 5 | 6 | 9 | 2 | 1 | 7 | 8 | 4 | 3 |
| 8 | 9 | 7 | 5 | 6 | 4 | 2 | 3 | 1 | | | | 2 | 7 | 8 | 3 | 4 | 5 | 6 | 9 | 1 |
| 4 | 6 | 2 | 8 | 1 | 3 | 5 | 7 | 9 | | | | 1 | 4 | 3 | 8 | 6 | 9 | 7 | 2 | 5 |
| 7 | 2 | 8 | 3 | 5 | 1 | 9 | 6 | 4 | | | | 4 | 2 | 1 | 5 | 7 | 8 | 9 | 3 | 6 |
| 3 | 4 | 6 | 9 | 8 | 2 | 7 | 1 | 5 | | | | 6 | 3 | 7 | 4 | 9 | 1 | 2 | 5 | 8 |
| 1 | 5 | 9 | 7 | 4 | 6 | 8 | 2 | 3 | | | | 9 | 8 | 5 | 6 | 2 | 3 | 1 | 7 | 4 |

Llongyfarchiadau hefyd i Jason a Gwen Lye-Phillips ar eu gwaith arbennig yn cysodi Y Cardi Bach. Nid hawdd oedd dilyn proffesiynoldeb Wyn a Meirwen, ond rydych wedi cadw'r safon a gallwn edrych ymlaen am ddyfodol disglair i'n Papur Bro. Rwy'n siwr y bydd Wyn a Meirwen yn falch i fwynhau eu hymddeoliad wedi blynyddoedd o waith diflino gan deall fod y Cardi Bach mewn dwylo da. Diolch hefyd i'r bwrdd Golygyddol, Rhian White am ei holl waith gyda'r Clwb 200, ac i'r holl gyfranwyr sy'n casglu newyddion yn fisol.

Rwy'n dal i obeithio y bydd rhywun yn gosod posau i chwi yn y dyfodol ac rwyf am eich gadael gyda thri pôs rhwydd.

➡

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | O | | | O |
| | O | | X | O | |
| | X | | | O | |
| X | | X | | | |
| X | | | | | |
| | | O | | | O |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| O | | | | X | |
| O | | O | | | |
| | X | | | | |
| | | | X | | X |
| | | | | | |
| | O | | | X | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | O | | O | |
| | | | | | |
| X | | O | O | | |
| | | | | | |
| X | | X | | | X |
| | O | | | | 0 |

**Diolch o galon John**

Mae'n ddiwedd cyfnod yn hanes Y Cardi Bach wrth i John Arfon Jones orffen cyflwyno ei erthygl boblogaidd "I'ch Diddori / Clonc a Phosau".

Gwnaeth John gyfrannu erthygl ddiddorol yn fisol am gyfnod o dros 30 o flynyddoedd ac rydym yn ddiolchgar iawn iddo am hynny. Bydde'n wych petai rhywun yn cynnig parhau gyda'r erthygl hon, anfonwch neges ebost i ycardibach@btinternet.com os gwelwch yn dda.

Roedd Y Cardi Bach bron a dod bant o'r cledrau flynyddoedd maith yn ol, ond daeth John Arfon i'r adwy gan gynnig sefydlu Clwb 200 ar gyfer y papur, er mwyn rhoi chwistrelliad ariannol i gynorthwyo gyda'r costau argraffu ac ati. Aeth ati gyda'i frwdfrydedd heintus i annog y byd a'i frawd i ymuno ac mae'r gweddill yn hanes. Llwyddodd un flwyddyn i gael dros 1,000 o aelodau , sy'n hollol ryfeddol. Fe wnaeth gydlynu'r Clwb 200 am flynyddoedd maith ac o ganlyniad i'w weledigaeth a'i frwdfrydedd, mae'r Cardi Bach yn parhau i dderbyn chwistrelliad ariannol yn flynyddol o ganlyniad i'r Clwb 200, sy'n cael ei gydlynu gan Rhian White.
Bydd hithe'n ddiolchgar iawn i gael eich cefnogaeth eleni eto – fel mae'n digwydd, mae ffurflen ymaelodi o fewn y rhifyn hwn.

Diolch o galon John am gyflawni gwasanaeth hollol arbennig dros Y Cardi Bach – da was, da a ffyddlon. Dymunwn adferiad buan i John wedi iddo gael trawiad ar ei galon yn ddiweddar. Ma'n dda deall ei fod adref o'r ysbyty erbyn hyn.

**PWYSIG**

Er mwyn hwyluso'r gwaith golygu a chysodi mae angen i'r newyddion gael eu danfon fewn erbyn yr 8fed o'r mis o hyn ymlaen. Hefyd, os yn bosib, a wnewch chi ddanfon lluniau yn ddigidol ar whatsapp, tecst neu e.bost at eich gohebydd lleol neu at e.bost y Cardi Bach. Diolch am eich cydweithrediad.



# Clwb 200

d/o Rhian White, Garnwen, Llangynin, San Clêr,
Sir Gâr. SA33 4JZ
Rhif ffôn: 01994 231338
e-bost: rhian-white1@hotmail.co.uk

Annwyl ddarllenwyr,
Blwyddyn Newydd Dda i chi a dymunaf iechyd ac hapusrwydd i chi gyd.
Mae'n flwyddyn newydd i'r Clwb 200 hefyd a diolch i'r nifer ohonoch sydd eisoes wedi ymaelodi. Fe welwch chi fod yna ffurflen ymaelodi'n amgaeedig yn y rhifyn hwn ar gyfer ei chwblhau a'i danfon ataf i. Bydd pawb sy'n ymaelodi'n cael cyfle i ennill yn fisol gyda'r wobr gyntaf yn £30 a'r ail yn £20. Roedd gennym 644 o aelodau y llynedd ac edrychaf ymlaen at flwyddyn lewyrchus eleni eto.
Llongyfarchiadau i'r canlynol am fod yn lwcus ym mis Rhagfyr:-
£30 - Freddie Read, D/O Christine Evans, Maes yr Onnen, Pwll-Trap
£20 - Davies Builders Hen Dŷ Gwyn a San Clêr


Cynhaliwyd y Raffl Fawr am 2025 ar Ragfyr 7fed yng Nghanolfan Hywel Dda, Hen Dŷ Gwyn.

Ceir yma restr o'r enillwyr lwcus ac os ydy'ch enw chi i'w weld, ond eich bod heb dderbyn eich arian, cysylltwch â fi ar unwaith, os gwelwch yn dda.

**£500**
Doreen Adams, Llain-Alaw, Hen Dŷ Gwyn
**£300**
T.J. Finch, Cwmgiedd, Rhydaman
£200
Tony a Meinir Eynon, Penbompren, Cwm Miles
**£100**
Edryd a Helen Evans, Penarth
Elaine Llewellyn, Tŷ Uchaf, Llandysilio
Beryl Griffiths, D/O J.A.Jones, Hen Dŷ Gwyn
**£75**
Myra Davies, Bryntirion, Pwll-Trap
Wyn Mathias, Garej Wyn, Crymych
Gwesty Station House, Hen Dŷ Gwyn
Rhian Pugh, East House, Crinow
**£50**
Meirion Morris, Maes y Bryn, San Clêr
Wyn Howells, Peintiwr, Llanboidy
Denzil Davies, Maes yr Onnen, Hen Dŷ Gwyn
Derrick Harries, Felindre, Gellywen
Merched y Wawr, Cangen Gronw
Margaret Phillips, Waunfawr, Llanboidy
**£40**
Mared a Heledd Williams, Bryn Iwan
Tomos Lewis, Dail Pren, Rhydargaeau
Taliesin Scott Robinson, Caeredin
Angela Murray, Piccadilly, Llanboidy
Huw Davies, Glynderi, Pwll-Trap
Ken Davies, Cigydd, Crymych
Iorwerth a Rhiannon Davies, Pencerrig, Efailwen
Ann Bowen, Tŷ Capel Pisga, Llandysilio
Nesta Rees, Penybryn, Pwll-Trap
James Morris, Talarwen, Efailwen
**£30**
Kathy Bizzotto, Bellissimo, Llandysilio
David Rowlands, Lôn Hywel, Hen Dŷ Gwyn
Twm Elias Davies, Castell Newydd Emlyn
Dion Williams, Cilowen, Login
Eryl Phillips, Garreg Lwyd, Pwll-Trap
Dianne Thomas, Casnewydd
Meinir Thomas, Felinfach, San Clêr
Ifan Davies, Saer Coed, Clunderwen
Paul a Carolyn Jenkins, Brosilio, Llandysilio
Ryland James, Cartref, Pwll-Trap
**£25**
Harri Williams, Ledbury
Iori Evans, Cross Inn
Angharad Davies, Merlais, Llanboidy
Peter a Menna Lewis, Dinbych y Pysgod
Rita James, Clos Nathaniel, Pwll-Trap
Carl Britton, CJ Waste, Llangynin
Rhydwyn Davies, Trydanwr, Blaenffos
Wendy Rees, Parc yr Eos, Hermon
**£20**
Jill Lewis, Lluest, Llanglydwen
Eirlys a Don James, Parc Llwyncelyn, Pwll-Trap
Denzil ac Ann Davies, Moelwern, Llanfyrnach
Iestyn, Rhys ac Eleri Page, Haulfryn, San Clêr

Diolch yn fawr am eich cefnogaeth i'r Clwb 200 ac i'r Cardi Bach.
Cadwch yn ddiogel,

Rhian.







# CORNEL Y DYSGWYR

*gan Albie Abbot*

**FFURFIAU'R FERF BOD**

1. __________ nhw ym y tŷ ar hyn o bryd.
2. Beth am alw heno, achos __________ i gartref erbyn 5 o'r gloch.
3. Ble __________ chi neithiwr?
4. __________ e'n symud pe bai e'n gyfoethog?
5. __________ nhw o gwmpas Ffrainc yn yr haf.
6. __________ e ddim yn hoffi'r gêm welodd e ddoe.
7. __________ hi'n ifanc neu yn hen ar hyn o bryd?
8. __________ chi yma cyn cinio yfory?
9. Fe hoffwn i pe __________ i'n dal.
10. __________ Tom ddim yn arfer bwyta panas pan oedd yn blentyn.
11. Ydych chi'n credu y __________ hi'n sych yfory?
12. __________ e'n gweithio yn y banc am gyfnod cyn dod yma?
13. __________ ti'n gobeithio dod eto?
14. __________ nhw o gwmpas y dref neithiwr.
15. __________ di'n hwyr os na redi di.
16. __________ Mari ddim yn y gwaith y bore 'ma pan gyrhaeddais i.
17. __________ ti'n gwerthu hwn am bunt pe baet ti yn fy lle i?
18. __________ ni'n arfer bod yn hapus yn yr ysgol.
19. __________ ti'n rhedeg pe gwelet ti ysbryd?
20. __________ ni'n crwydro o gwmpas Ewrop yr adeg yma y llynedd.
21. Fe fyddaf i yno os __________ di yno hefyd.
22. __________ ti'n credu fy mod i'n iawn y tro hwn?
23. Roedd hi'n wyntog, ond __________ hi ddim yn bwrw glaw.
24. Os bydd hi'n oer, __________ ni'n aros yn y tŷ.
25. Rwy'n sicr __________ fi sy'n iawn.
26. Os __________ hi'n wlyb, dydw i ddim yn dod.
27. Ble __________ chi ar eich gwyliau y llynedd?
28. Fe ddôn nhw pan __________ nhw'n well.
29. Mae e'n dweud taw o Gaerdydd __________ e'n enedigol.
30. Chysgaf i ddim tan y __________ hi yn y tŷ.

**Diolch Wyn a Meirwen**

Daeth diwedd cyfnod Wyn a Meirwen fel cysodwyr Y Cardi Bach nol ym mis Gorffennaf llynedd, ond oherwydd nifer o resymau, dim ond yn ddiweddar gwnaethom fel swyddogion, lwyddo i'w anrhegu. Manteisiwyd ar y cyfle i fynd mas a hwy am bryd o fwyd yn y Crymych Arms a cawsom gyfle unwaith eto i ddiolch iddynt am eu gwaith diflino, drwy gyflwyno rhodd ariannol i'r ddau. Gwnaethant gyflawni gwasanaeth arbennig dros gyfnod o 21 mlynedd a roedd y ddau wastod yn cymryd balchder mawr yn eu gwaith. Diolch i chi Wyn a Meirwen am bopeth, hyderwn eich bod yn ymlacio ychydig yn fwy erbyn hyn!



**Eurfyl yn cyflwyno rhodd i'r ddau.**

Dymuna Wyn a Meirwen Evans ddiolch yn ddiffuant i'r Cardi Bach am yr anrhegion hael wnaethant dderbyn ar ddiwedd eu cyfnod yn cysodi'r papur. Maent yn gwerthfawrogi'r cyfan yn fawr iawn.





HUW OWEN
CLUDIANT



Rhydymoch
Llandysilio
Clunderwen
Sir Gaerfyrddin
SA66 7UR

☎: 01437 563725 • 07798 885305

CWMNI PEIRIANNEG HENDYGWYN AR DAF CYF.
(WHITLAND ENGINEERING LTD.)
GWAITH HAEARN O BOB MATH
SEFYDLU · ADEILADU · WELDIO
ARBENIGWYR YNG NGWAITH HUFENFEYDD A BRAGDAI
GWAITH CYNNAL A CHADW

Uned B
Heol y Gorllewin
Hendygwyn ar Daf

Ffôn: 01994 240442
Ffacs: 01994 240937



# MERCHED Y WAWR

**Cangen Hendygwyn**

Brian Jones Castell Howell oedd gwestai'r mis ym mis Tachwedd ac fe bwysleisiodd Ann Lewis wrth ei gyflwyno cymaint oedd ein gwerthfawrogiad o'i bresenoldeb yn ein plith ac yntau yn ddyn busnes mor brysur. Cawsom orig ddiddan iawn yn ei gwmni wrth iddo olrhain hanes ei
fywyd diddorol mewn ffordd hynaws, llawn hiwmor. Arhosodd
i sgwrsio da ni tra'n mwynhau disied o de ac yna aeth mas i'r car i nol bobi gwdyn o nwyddau Castell Howell i ni!
Diolchodd Margarette iddo 'n gynnes iawn am ymuno gyda ni ac am fod mor hael.
Ym mis Rhagfyr aethon ni i Dafarn y Fishers i ddathlu'r Nadolig gyda'n gilydd. Ceson ni ginio Nadolig draddoiadol fendigedig gyda'r trimins i gyd! Roedd pawb yn cyfadde eu bod nhw'n rhy stiff i symud!
Yn anffodus roedd rhai aelodau'n methu bod yna achos salwch ac rydyn ni'n dymuno adferiad buan iddyn nhw. Roedd hi mor braf i groesawu Jean Parri Roberts nol i'n plith ar ol ei thriniaith ac roedd hi'n hyfryd hefyd i gael cwmni Angharad Booth Taylor o gangen Beca.
Carol Young enillodd y raffl ac ynghanol y rhialtwch,galwodd Sion Corn mewn i'n gweld ni fel syrpreis! Cytunodd pawb ei fod yn ddechreuad gwych i ddathliadau'r Nadolig ac fe ddiolchwyd yn gynnes iawn i staff y Fishers am y croeso a'r ginio hyfryd.
Ym mis Ionawr byddwn ni nol yng Nghanolfan Hywel Dda ac edrychwn ni mlaen i groesau Y Mynach Olaf i roi tipyn o hanes Abaty Hendygwyn i ni. Bydd y cyfarfod am hanner aer wedi dau.



**Dyma lun o Mr Brian Jones Castell Howell yn mwynhau cwmni rhai o Ferched y Wawr Hendygwyn.**

**Clwb Gwawr Merched Hywel**

Daeth criw ynghyd i wneud torchau Nadolig o dan arweiniad Nia Davies. Cafwyd noson hyfryd a chrëwyd amrywiaeth o dorchau prydferth. Mwynheuwyd dished a mins pei yn dilyn hyn. Diolch i Nia am ein tywys drwy'r broses o weithio torch ac am rannu ei harbenigedd â ni.



**Clwb Gwawr Merched Hywel gyda torchau Nadolig.**

**Cangen San Clêr**

Croesawyd pawb i gyfarfod mis Tachwedd gan Eileen. Roedd 16 yn bresennol.
Llongyfarchwyd y ddau dîm a fu'n cystadlu yn y Cwis Hwyl.– Tîm B (Pat, Iona, Beti-Wyn) ar ennill yn Rhanbarth Caerfyrddin gyda 80 o bwyntiau, Tîm A (Lilwen, Marian, Rhian) yn ail gyda 79. Yn genedlaethol Pontypridd enillodd gyda 83, Penrhyn coch yn ail gyda 82 a Chwm Rhymni a
Chaernarfon yn drydydd gyda 81.
Croesawodd Eileen y siaradwraig wadd sef
Meleri Brown o Lanpumsaint sydd yn rhedeg busnes Therapi Cyfannol Holistig. Bu'n son am newid gyrfa i hyfforddi ym myd adweitheg, trin aelodau o'r teulu nes i'r gofyn ehangu ac iddi nawr weithio llawn amser yn darparu triniaeth adweitheg. Bu'n son yn gyffredinol am adweitheg cyn iddi gyflwyno adweitheg dwylo i'r aelodau gan egluro sut oedd gweithio ar wahanol rannau o'r dwylo yn helpu'r corff. Sesiwn ddifyr iawn a llawer yn cysgu'n well y noson honno!
Diolchwyd iddi gan Beti-Wyn. Rhoddwyd y wobr raffl gan Rhian ac fe'i henillwyd gan Doreen. Diolch i Janet, Eirwen a Doreen am baratoi te.

DAVIES
CWMNI ADEILADWAITH
Contractiwr Adeiladau Amaethyddol
Llogi Peiriannau
Arbenigwr mewn gwaith concrid
Parlyrau Godro • Iardiau Concrid
Paneli ac Estyll Concrid
Cysylltwch â Wyn Davies
Fferm Blaenwaun, Hebron, Hendygwyn ar Daf
Ffôn: 01994 419720 / 07791 168326

DAVIES
Y GWRES
A'I FERCHED
Plymio a Gwresogi
07792 947227
ebost: hyweldavies65@gmail.com

T. D. LADD
a'i GWMNI
SIOP NWYDDAU HAEARN
Belle Vue
Clunderwen
Ffôn: 01437 563217

Bu’r gangen yn paratoi eitem gogyfer â noson Cracyr Nadolig y Mudiad a ddarlledwyd ar Ragfyr 18fed. Roedd yr eitem yn cyflwyno Stori’r Geni ar ffurf Pasio’r Parsel gyda chyfle i bob aelod fod yn rhan o’r eitem. Cafwyd noson hwylus yn ffilmio yng nghwmni Angharad, Swyddog Technegol Merched y Wawr a Jane, Swyddog Datblygu Ranbarth Caerfyrddin. Daethom at ein gilydd ar Ragfyr 18fed i wylio’r darllediad o Cracyr Nadolig ym Methlehem Newydd. Croesawyd pawb gan Iona a nododd mai braf oedd cael Sharon a Rhian gyda ni, ill dwy wedi cael cyfnod o salwch a hefyd Mair Griffiths a ymunodd â ni i wylio’r darllediad. Dros baned a mins pei fe fwynhawyd gwylio eitemau o bob Rhanbarth yng Nghymru a mawr oedd y wefr o wylio’n cangen ni. Diolchodd Iona i Angharad a Jane a fu’n ffilmio, i Beti-Wyn am baratoi’r eitem, i bawb a oedd wedi cymryd rhan a dod a “props” ac a fu’n paratoi’r mins peis a lluniaeth. Cafwyd noson hyfryd gyda’n gilydd.



**Yr aelodau a fu’n cymryd rhan yng Nghracyr Nadolig y Mudiad gyda Jane Morgan, Swyddog Datblygu.**

**Clwb Darllen**
Ar Ragfyr 8fed bu’r aelodau yn trafod “Casglu Llwch” gan Georgia Ruth. Ar y cyfan roedd pawb wedi mwynhau;r llyfr a chafwyd trafodaeth ddifyr. Bydd y Clwb yn cyfarfod nesaf ar Chwerfror 2il a’r gyfrol i’w thrafod fydd “Almanac o fis i fis” gan Ruth Morgan a’i merched. Croeso i aelodau newydd.

**Merched y Wawr Cangen Gronw**
Dathlu’r Nadolig
Eleni penderfynnwyd dathlu drwy gael Tê prynhawn ar Rhagfyr 4ydd. Cawsom groeso arbennig yn “Becws Bets, Maenhir, Login.
Cyn dechrau ar y danteithion cawsom gyfarfod busnes byr.
Cydymdeimlwyd â theulu y diweddar Irene Davies un o’n cyn aelodau. Yn ddiweddar roedd wedi treulio ei hamser mewn Cartref Gofal.
Hefyd cydymdeinlwyd â dwy o’n haelodau, Wenfys Rees sydd wedi colli ei chwaer a Marion Davies ar golli ei brawd.
Dymunwyd yn dda i ddwy aelod arall sydd yn anhwylus Gwenda Williams ac Eileen Blain.
Yn anffodus mae Nansi Evans, ein haelod hynaf, wedi gorfod symud o’i chartref oherwydd llifogydd. Dymunwyd yn dda iddi yng Nghartref Gofal yng Nghross Hands. Bydd yr ysgrifennydd yn danfon cyfarchion Nadolig a llythyr iddi.
Casglwyd enwau yr aelodau sydd am fynd i ginio’r Llywyd Cenedlaethol -Bethan Picton Davies yng Nghwesty’r Crug Glas, Tŷ ddewi ar Sadwrn Ebrill 25ain.
Cawsom wledd o fwyd sawrus a melys gyda amrywiaeth eang, a digonedd o dê a choffi. Roedd y lle wedi ei addurno yn Nadoligaidd ac yn gynnes a chlyd. Cafwyd amser hyfryd yn cymdeithasu.
Diolchwyd i Betsan a’i staff a dymunwyd Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.
Cynhelir ein cyfarfod nesaf yng Nghwesty Roadhouse, Hendygwyn ar daf.

Preseli Services Cyf
Llanddewi Efelffre, Arberth. SA67 7PD
Oil4Wales
Olew dros Gymru
CERDYN TANWYDD
preselistorage Ltd
www.pembrokeshire-storage.co.uk
VENTED & INSULATED STORAGE CONTAINERS • SECURE CARAVAN & MOTOR HOME STORAGE

GAREJ WYN CYF
Uned 1 Parc Gwynfryn
Crymych, Sir Benfro
SA41 3RG
MOT
Gwasanaeth •Atgyweirio
Teiars • Batris
Ffôn: 01239 831300
Ffacs: 01239 831853

GWASANAETH CEIR HENDYGWYN
Canolfan atgyweirio ceir
Gwerthu Teiars, Batris, Egsosts ayyb
Dai James - Steven Owens
Uned 9, Ystad Ddiwydiannol Gerddi’r Ffynnon, Hendygwyn ar Daf
01994 240230 / 07972

**Cyfraniadau Cynghorau Tref a Cymuned 2025**

| | |
|---|---|
| Cyngor Cymuned Llanboidy | £500.00 |
| Cyngor Cymuned Llanwinio | £250.00 |
| Cyngor Cymuned Bro Trelech a Betws | £100.00 |
| Cyngor Cymuned Llangynin | £100.00 |
| Cyngor Tref Sanclêr | £50.00 |
| Cyngor Cymuned Cilymaenllwyd | £500.00 |
| Cyngor Cymuned Henllanfallteg | |
| Cyngor Tref Hendygwyn | |
| Cyngor Cymuned Clunderwen | £200.00 |
| Cyngor Cymuned Llandysilio | |
| Cyngor Cymuned Meidrim | |
| **Cyfanswm** | **£1,700.00** |

Diolch i'r 7 Cyngor Tref a Cymuned uchod am gefnogi'r Cardi Bach llynedd, gwerthfawrogwn hyn yn fawr iawn. Bydde'n wych derbyn cefnogaeth wrth y 4 Cyngor Tref a Cymuned arall hefyd, gan taw papur cymunedol yw Y Cardi Bach .

**Cyfraniadau**
Mel a Liz, Hendygwyn - £10
Carl Britton, CJ Waste, Llangynin - £25
Cyng Jean Lewis - £40




**Cawl Cennin a Thatws**

Cynhwysion

- 750g / 1 pwys 11 owns o gennin, wedi'u sleisio'n fân
- 350g / 12 owns o winwns wedi'u sleisio'n fân
- 100g / 4 owns o fenyn Cymreig heb halen
- 350g / 12 owns o datws wedi'u torri'n giwbiau
- 900 ml / 1¾ peint o ddŵr berwedig
- 900 ml / 1¾ peint o stoc cyw iâr neu lysiau
- 150 ml / ¼ peint o hufen dwbl
- Halen, pupur a sifys wedi'u torri

**Dull**

1. Cymysgwch y cennin a'r winwns mewn darn o fenyn wedi'i doddi mewn sosban nes eu bod yn feddal.
2. Ychwanegwch y tatws amrwd, y stoc a'r dŵr – dewch â'r cymysgedd i'r berw a'i ferwi am 18 munud.
3. Ychwanegwch yr hufen, yna mudferwch am ddwy funud.
4. Rhowch mewn hylifydd nes ei fod yn llyfn, ychwanegwch halen a pupur
5. Gweinwch mewn powlenni cynnes gyda throell o hufen a sifys wedi'u torri.

# PENBLWYDD HAPUS



**Penblwydd hapus iawn i Ema Farnden a oedd yn 7 oed ar Ionawr 8fed. Merch Nia a Robert Farnden, Tegryn. Wyres Delyth a Michael Roblin. Daw'r cyfarchion oddi wrth y Roblin's ar Farndens.**

# BLAENWAUN

Cydymdeimlwn â Marion Davies, Heol Sion, ar golli ei brawd Gerald Llewellyn.
Hefyd mae Marina Evans, Maes yr haf, wedi colli ei modryb Gwennie Rees, Cheerio, Llangynin. Cydymdeimlwn yn fawr â hi a'r teulu ehangach.
Dymunwn wellad buan i Barry Davies, wedi iddo gael llawdriniaeth.

**Moriah**

Dathlwyd y Nadolig gyda oedfa yng ngofal y Parchedig Gareth Ioan ar Sul, 21ain Rhagfyr. Cafwyd oedfa fendithiol a mwynhaodd bawb y lluniaeth i ddilyn. Canslwyd yr oedfa ar Sul cyntaf o'r flwyddyn oherwydd bod y ffyrdd yn rhy beryglus yn dilyn eira a'r rhew. Edrychwn ymlaen at oedfa ar
Chwefror 1af am 3-30. Oedfa Gymun.
Chwefror 22ain. Gwyl Rhinwedd a Moes. 10yb Brecwast Caffi Beca. Siaradwr gwâdd Cleif Harpwood Tâl £12 ac enwau I'r ysgrifennydd cyn 12fed Chwefror.
Mawrth 1af. 1-30yp oedfa Gŵyl Ddewi Parchedig Gareth Ioan.



R. M. JONES
CYFRIFYDD AC AMCAN-GYFRIFYDD
Bridge End House
Clunderwen
Ffôn: 01437 562185 / 07831 426456
e-bost: meurigj@hotmail.com

# LOGIN

**Canolfan Gymdeithasol Ffynnonwen**

Oedfa Carolau:Cynhaliwyd ein hoedfa ar Nos Sul, 14eg Rhagfyr. Arweiniwyd gan y Parchedig Huw George yn ei ffordd arbennig arferol i greu naws y Nadolig. Yr organyddes oedd Ceirios Jenner, hithau wastad yn barod i gynorthwyo. Wedi cael hwyl ar y canu, aeth pawb i'r festri i fwynhau'r gwîn cynnes a theisennau. Mawr fu'r cymdeithasu o flaen clorwth o dân agored. Casglwyd llwyth o eitemau ar gyfer "Banc Bwyd Hendygwyn ar daf" yn ogystal a £125 o arian. Diolch i bawb a gynorthwyodd mewn unrhyw fodd i sicrhau llwyddiant y nosweth. Gwerthfawrogwyd y rhoddion yn fawr.
Cynhelir cinio blynyddol y Ganolfan yng Nghaffi Beca ar nos Wener, Ionawr 30ain am 8 o'r gloch. Enwau i'r ysgrifennydd a blaendâl o £10 erbyn 23ain Ionawr fan pellaf, drwy ebost neu alwad ffôn ar linell y tir yn unig. Croeso cynnes i bawb yn yr ardal,ond dim ond hyn a hyn o enwau gallwn dderbyn.
Trefnir y cyfarfod nesaf ar nos Fawrth, 3ydd Chwefror am 7 o'r gloch. Bydd yn hyfryd cael cefnogaeth dda yn bresennol.
Mae'r Ganolfan wedi colli dwy o'i phileri yn yr wythnosau diwethaf sef Mary Llewellyn, Garth, a Margaret Williams, Cilowen. Y ddwy yn aelodau ers dechrau'r Ganolfan yn 1973. Nid yn unig yn aelodau ond yn weithwyr brwd wedi rhoi o'u hamser a'u doniau i sicrhau y dyfodol. Gwelwn eu heisiau yn fawr iawn ac anodd bydd llenwi eu lle. Cydymdeimlwn yn fawr â'r teuluoedd. Ergid fawr i'r gymdeithas gyfan.
Trefnir y cyfarfod nesaf ar nos Fawrth, 3ydd Chwefror am 7 o'r gloch. Byddai yn hyfryd cael cefnogaeth dda.



**Calfaria**

**Oedfaon.**

Diolch o galon i'r Parchedig Catrin Ann Thomas am ei gwasanaeth yn ystod yr
wythnosau diwethaf, gwerthfawrogwn hyn yn fawr iawn.

Dyma drefn yr oedfaon ar gyfer yr wythnosau nesaf.
Chwefror 8fed – Shan Jones - Cymun am 2
22ain – Brecwast Rhinwedd a Moes yng Nghaffi Beca am 10
Mawrth 8fed – Hedd Ladd Lewis – Cymun am 10.30
22ain – Orinda Roberts – Cwrdd am 2

**Gwasanaeth Nadolig**

Cynhaliwyd gwasanaeth Nadolig hyfryd yng Nghalfaria Login ar fore Sul, Rhagfyr 21ain, gydag aelodau a ffrindiau y capel yn cymryd rhan.

Canwyd carolau cynulleidfaol, a fe'u cyhoeddwyd gan Mefin Lewis, Delyth Morris, Sian Wills ac Anthony Jenner, gyda Ceirios Jenner yn cyfeilio ar yr organ. Cafwyd darlleniadau o'r Beibl gan Eurfyl Lewis, Beti a Caryl James,
Endaf Jones ac Owen Jenner, a fe'n tywyswyd mewn gweddïau gan Nigel Vaughan a Betty Evans.

Adroddodd Sian Davies, Ann Lewis, Faith Wright a Buddug Davies gerddi gan feirdd lleol a fe wnaeth Ceirios Jenner sôn am beth yw'r Nadolig i ni erbyn hyn, yn
ogystal â rhoi anerchiad byr, gan adlewyrchu ar y flwyddyn a aeth heibio ac edrych ymlaen at flwyddyn arall mewn gobaith. Canodd Beti a Sian gwpwl o ganeuon
Nadolïgaidd, a pherfformiodd Ceirios a Nia Lewis gân hefyd. Yn ogystal, cafwyd dwy eitem gerddorol gan y gwragedd. Diolchodd Eurfyl i Ceirios am baratoi'r gwasanaeth ac i bawb am gymryd rhan, gan ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

Hoffai aelodau'r capel ddiolch i Eurfyl Lewis, ysgrifennydd Calfaria, a Faith Wright, trysorydd y capel, am eu holl waith caled yn ystod y flwyddyn aeth heibio. Gwerthfawrogwn hyn yn fawr.

Tomos Rees
NEW HOUSE GARAGE
Atgyweirio a M.O.T.
Ffôn: 01994 230041

HAYDN LLOYD BSc / DMS - Cyfarwyddwr
ALLPUMP SERVICES
ARBENIGWYR MEWN PWMPS FFYNNON A TYLLAU, TRINIAETH CARFOSIAETH, SYSTEMAU DŴR BRWNT A SOLAR
Fferm Ffynnonlwyd
Llangynin
San Clêr
SA33 4LD
Ffôn: 01994 448310
Ffacs: 01994 448693
e.bost: enquiries@allpump.co.uk

DAIL PREN
Crefftwaith pren, arwyddion a gwaith ysgythru laser
Tomos Lewis
dailpren.co.uk | dailpren@hotmail.com

**Cydymdeimlo**

Cydymdeimlwn yn ddiffuant gyda Huw Llewellyn a Delyth Simons a'u teuluoedd
ar farwolaeth mam, mam yng ngyfraith, mamgu, hen famgu a hen hen famgu
annwyl iawn sef Mary Llewellyn ( Garth gynt ). Cynhaliwyd angladd Mary yn
Amlosgfa Parc Gwyn ar Ddydd Mawrth, Rhagfyr 23ain a daeth cynulleidfa fawr
ynghyd i dalu'r gymwynas olaf iddi. Coffa da amdani.

Cydymdeimlwn hefyd gyda Beti James, Sian Davies a Dion Williams a'u teuluoedd ar farwolaeth mam, mam yng ngyfraith, mamgu, a hen famgu annwyl iawn sef Margaret Williams, Cilowen. Yn rhyfedd iawn, bu farw Margaret ar ddiwrnod angladd Mary – roedd y ddwy wedi byw gyda'u gilydd am gyfnod adeg Covid. Cynhaliwyd ei hangladd yng Nghapel Calfaria Login ar ddydd Mercher, Ionawr 14eg a daeth cynulleidfa fawr ynghyd i dalu'r gfymwynas olaf iddi. Coffa da amdani.

**Dysgu Cymraeg**

Mae Jackie Davies yn dysgu Cymraeg ar gynllun Cymraeg Gwaith y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, ac erbyn hyn mae'n defnyddio'r iaith yn y gweithle, a gyda'r teulu. Mae'n byw yn Login, Sir Gaerfyrddin, ers 31 o flynyddoedd. Mae Jackie yn rhedeg busnes gwyliau gyda'i gŵr, Lindsay, ac mae hefyd yn therapydd.

**Holi Jackie**

*Ble dych chi'n byw?*
Ges i fy ngeni yng Nghastell-nedd, ond ges i fy magu yng Nghanada. Dw i'n byw yn Login, Sir Gaerfyrddin, ers 31 o flynyddoedd.

*Pa fath o fusnes gwyliau dych chi'n ei redeg?*
''Dyn ni'n cynnig caban sy'n rhoi cyfle i bobl ymlacio yng nghanol cefn gwlad. Mae'r caban yn eco-gyfeillgar, ac wedi ei wneud â deunyddiau sy wedi eu hailgylchu, yn lleol.

*Sut dych chi'n defnyddio'r Gymraeg yn y gwaith?*
Dw i'n ysgrifennu nodiadau syml yn Gymraeg yn y cardiau cyfarch sy'n cael eu rhoi yn y llety. Dw i hefyd yn siarad Cymraeg gyda gwesteion, ac adeiladwyr sy'n gwneud gwaith ar y llety.

*Pam wnaethoch chi ddechrau dysgu Cymraeg?*
Mae'r plant i gyd wedi gadael y cartref, ac maen nhw wedi dysgu Cymraeg. Mae gen i fwy o amser nawr, felly ro'n i eisiau dysgu hefyd. Mae fy ŵyr bron yn ddwy oed, ac mae'n cael ei fagu'n ddwyieithog, felly dw i'n mwynhau siarad Cymraeg gyda fe.

*Pa wahaniaeth mae dysgu Cymraeg wedi'i wneud i chi?*
Dw i'n mwynhau dysgu Cymraeg, ac mae'n rhoi rhywbeth i mi feddwl amdano pan dw i'n gwneud tasg ddiflas. Dw i hefyd yn teimlo fy mod i'n perthyn yn fwy i'r diwylliant Cymreig.

*Sut dych chi'n ymarfer siarad Cymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth?*
Dw i'n siarad Cymraeg gyda fy ŵyr a fy mab. Mae gen i ffrindiau sy'n siarad Cymraeg hefyd.

*Unrhyw gyngor i ddysgwyr eraill sy eisiau dechrau dysgu Cymraeg?*
Dechreuwch, a pheidiwch ag oedi, achos mae amser yn hedfan heibio. Dw i'n cael llawer o hwyl yn y dosbarth, a dw i'n defnyddio Duolingo hefyd.

*Eich cam nesaf gyda'r Gymraeg?*
Dw i'n gobeithio dilyn cwrs lefel Canolradd nesaf, a ffeindio grŵp yn y gymuned i ymarfer siarad Cymraeg.



**Jackie Davies.**

**CJ Waste cyf.**
Carl Britton
01994 238367
07506 482007
cjwasteltd@yahoo.com
Prisiau ardderchog
Gwagio tanciau septig / carthbyllau
Britton Villa, Llangynin,
Sanclêr, SA33 4JZ

GLANDY CROSS STORES CYF
Glandy Cross
DAN BERCHNOGAETH NEWYDD
Nwyddau di-ri ar gael ar gyfer unrhyw achlysur gan gynnwys Petrol, Gwin a Chwrw, Glo, Coed Tân, 'Top up' Trydan a Loteri
POST OFFICE Esso
Ar agor Llun - Sul
6y.b - 9 y.h.

G WILLIAMS
a'i FEIBION
Monumental Masons
SEIRI MEINI COFFA
Pentre Yard
San Clêr
Ffôn: (01994) 231390

# CWM MILES

**Capel**

Cyfarchion hwyr i'n horganyddes Janet Harries, Spring Cottage a ddathlodd ei phenblwydd yn 80 oed mis diwethaf. Pob dymuniad da iddi oddiwrth yr aelodau.
Mae aelodau Cwm Miles hefyd yn cydymdeimlo a theulu Cilowen ar farwolaeth Margaret. Roedd yn aml yn bresennol yn oedfaon Cwm Miles. Gwelwn ei heisiau.
Oedfa gyntaf eleni bydd Mawrth 8fed Cymun 2 o'r gloch Orinda Roberts.

# LLANBOIDY

**Diolch**

Mae Margaret a'r teulu, Waunfawr, Llanboidy yn diolch o galon i bawb am eu caredigrwydd a'u haelioni pan gollwyd Hubert mor sydyn yn ddiweddar. Roedd y cyfraniadau yn hael a dosbarthwyd hwy gan y Trefnwr Angladdau i'r ddwy elusen sef Ymchwil y Galon a Meddygfa San Clêr

Dymuna Angela Murray a'r teulu ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a chefnogaeth a ddangoswyd tuag atynt yn ystod y misoedd diwethaf ar ôl colli Gareth. Gwerthfawrogir eich caredigrwydd yn fawr.

**Cydymdeimlo**

Estynnwn ein cydymdeimlad pennaf a diffuant i Jayne Young a John Heseltine a'u teuluoedd ar farwolaeth mam, mam yng ngyfraith, mamgu a hen famgu annwyl iawn sef Norah Heseltine, Spencer House. Bu farw Norah ar Tachwedd 9fed yn 95 mlwydd oed a cynhaliwyd ei hangladd yng Nghapel y Trinity ar Rhagfyr 16eg. Roedd y gwasanaeth yng ngofal y Parchedig Llewelyn Picton Jones, yn cael ei gynorthwyo gan y Parchedig Guto Llywelyn, dau gyn weinidog i Norah. Bu dwy wyres Norah hefyd yn cymryd rhan, Gwenllian yn rhoi'r deyrnged a Lowri yn canu. Daeth cynulleidfa fawr ynghyd i dalu'r gymwynas olaf i Norah a claddwyd ei gweddillion ym mynwent y capel. Bu Norah yn ohebydd gweithgar a ffyddlon dros bentref Llanboidy i bapur bro Y Cardi Bach ers i'r papur gael ei sefydlu nol ym mis Medi 1979 – a gwneud hynny am gyfnod o dros 46 mlynedd! Fe wnaeth gyflawni gwasanaeth anhygoel yn enw'r Cardi Bach a rydym yn gwerthfawrogi ei chyfraniad arbennig yn fawr – pobol fel Norah yw asgwrn cefn y papur bro ac mae'n gadel bwlch mawr ar ei hol. Mae'n dda cyhoeddi, fodd bynnag, bod Jayne, merch Norah, yn bwriadu cymryd drosodd wrth ei mam, fel gohebydd Llanboidy. Rydym yn ddiolchgar iawn i Jayne am hynny ac yn hyderu y gwnewch chi drigolion Llanboidy gynorthwyo Jayne drwy gyflwyno newyddion personol a cymdeithasol y pentref iddi'n rheolaidd. Pob dymuniad da i ti Jayne gyda'r gwaith. ( Gol )

Cynhaliwyd Ffair Nadolig Neuadd y Farchnad, Llanboidy nos Wener, Rhagfyr 5ed. Cafwyd eitemau gan blant Ysgol Bro Brynach. Croesawodd y Cyng. Dorian Phillips llywydd y noson sef Mr John Phillips, gynt o Esgaerddeugoed, Cwmfelin Mynach a chafwyd araith bwrpasol ganddo.



**Yn y llun gwelir John a Heather Phillips gyda swyddogion y neuadd sef, y Cyng. Dorian Phillips, Eiry Williams a Delyth Bebb.**

**Chwaeroliaeth**

Ar Dachwedd 19eg, cyfarfu'r aelodau yn y festri o dan lywyddiaeth Wenfys Rees. Croesawodd pawb i'r cyfarfod a bu'n cydymdeimlo a Susan Davies ar golli cefnder, hefyd teulu a ffrindiau Norah Heseltine a oedd wedi bod yn aelod ffyddlon a gweithgar o'r cychwyn yn 1969, a dymunodd gwellhad buan i Gwenda Williams. Bu Wenfys yn arddangos trefnu blodau ar gyfer y Nadolig. Cafodd yr aelodau gyfle i greu trefniadau eu hunain gyda Rhiannon Davies yn ennill y trefniant gorau. Enillwyd trefniant yr un o waith Wenfys gan Myfanwy, Mair a Rhiannon. Fe wnaeth pawb fwynhau'r prynhawn a diolchodd yr aelodau i Wenfys cyn cael te a bisgedi, wedi eu paratoi gan Myfanwy Thomas a Marian Davies.

RHYDWYN DAVIES
TRYDANWR
Parcylleine, Blaenffos, Boncath. SA37 0HZ
NICEIC APPROVED CONTRACTOR
Ffôn: 01239 831212
Symudol: 07836 751238

AM Y DEWIS GORAU
GALWCH HEIBIO
SIOP Y PENTAN
Y Farchnad, Caerfyrddin
*Anrhegion Cyfoes Cymraeg*
*Llyfrau Cymraeg*
*CD's*
*Cardiau Cyfarch*
*a llawer mwy*
Ffôn: 01267 235044

Fferyllfa Clunderwen
GWASANAETH DOSBARTHU AR GAEL
Os ydych am i ni archebu eich presgripsiwn, cysylltwch â ni
Ffôn: 01437 563228
Fferyllfa Clunderwen, Crinow Glebe, Clunderwen. SA66 7NP



**Trefniadau Blodau'r Nadolig aelodau'r Chwaeroliaeth.**

Ar Ragfyr 17eg, teithiodd yr aelodau i Gaffi Beca ar gyfer eu Cinio Nadolig. Croesawodd Wenfys bawb at y bwrdd gyda'r aelodau yn mwynhau cinio blasus cyn gorffen gyda te a mins peis. Diolchwyd i Robert a'r staff am y croeso cynnes a diolchodd Delyth Dent i Wenfys am wneud y trefniadau.



**Aelodau Chwaeroliaeth y Trinity yn eu Cinio Nadolig yn Caffi Beca.**

**Sefydliad y Merched**

Yn y cyfarfod Mis Rhagfyr, cynhaliwyd yn Neuadd y Farchnad, bu'r llywydd yn llongyfarch Jan Griffiths ar fod yn ddigon lwcus i ennill yr 2il wobr gyda Clwb 200 y Sir. Roedd yr aelodau yn drist i glywed am farwolaeth dwy aelod gwaethgar a ffyddlon sef Brenda Worthing a Norah Heseltine, bu'r ddwy yn aelodau am flynyddoedd lawer ac mi fydd colled ar eu hôl. Roedd yn fraint i'r aelodau i waenu te yn y Neuadd wedi angladd Norah. Bu Denise a Nia ar gwrs yn eu hyfforddi i weithio Cardiau Hâd Nadolig a cafodd yr aelodau arddangosfa o'r cardiau a gynhyrchwyd ganddynt.
Ym mis Ionawr, cyfunwyd y cyfarfod gyda'i cinio Nadolig yn nhafarn y Fox and Hounds yn Bancyfelin. Bu'r llywydd yn llongyfarch Jayne ar ennill y 3ydd wobr yng nghystadleuaeth Personoliaeth Chwaraeon y Flwyddyn gyda'r Sir. Mae'r aelodau yn edrych ymlaen at gymryd rhan mewn cystadleuthau tenis bwrdd a dominoes yn ystod y misoedd nesaf.




**Aelodau Sefydliad y Merched Llanboidy yn eu cinio blynyddol.**

**Corlan**

Carolathon (parhad o dudalen flaen..)
Wedyn daeth disgyblion Ysgol Beca i ganu a rhoi perfformiad offerynnol. Yn dilyn hyn perfformiodd Bois y Frenni gasgliad o'u caneuon unigryw, ac yna daeth Côr Crymych i ganu. Bu aelodau unigol o Corlan yn cadw'r canu i fynd drwy gydol y dydd, drwy lenwi'r bylchau rhwng yr eitemau. Canwyd nifer o ganeuon Plygain a chaneuon eraill gan Donna George, a pherfformiodd Aled Eynon, Heather Jenkins a Ceirios Jenner ambell gân hefyd. Daeth Côr Bois Clwb Rygbi Crymych i berfformio nesaf, yna aelodau o Ferched y Wawr Mynachlog-ddu a Chapel Bethel. Yr hyn oedd yn braf oedd bod trawsdoriad o'r rhai oedd âchysylltiadau â Jill, yn deulu a ffrindiau o bob oed, wedi medru cymryd rhan yn ystod y dydd. Croesawyd Côr Harmoni i ganu nesaf, a dilynwyd hwy gan Caleb Nicholas a Sioned Llewelyn Jones. Bu Teifryn Rees yn canu wedyn a chafwyd perfformiad arall gan Corlan. I nodi'r digwyddiad arbennig yma, roedd Aled Eynon wedi ysgrifennu'r englyn canlynol, ac fe wnaeth ei adrodd:

I Jill down at ein gilydd - ein lleisiau
Er lles a thros gynnydd,
A nodau a doniau'r dydd
Yn unawd o lawenydd.

Yn y prynhawn bu Begw Fussell a phlant, pobl ifanc ac oedolion Ysgol Sul Nebo yn canu, ac yn dilyn eu perfformiadau hwy, canodd Côr Meibion Hendy-gwyn







amrywiaeth o ganeuon. Nesaf i ganu oedd Beti a Sian ac aelodau Capel Calfaria Login. Wedyn daeth cyn-aelod o Corlan i ganu, sef Arwel Evans. Cafwyd rhai munudau teimladwy ar ôl hyn wrth i fideo gael ei ddangos o recordiad awnaed yn ystod Covid ar gyfer gwasanaeth Nadolig rhithwir Calfaria Login, a hynny o Jill, Glesni a Ceirios yn canu ‘Cofio Crist’. Dilynwyd hyn gan berfformiad offerynnol gan Claire Jones, Chris Marshall a Cadi, ac ymunodd Corlan drwy ganu darn o gerdd dant i gyfeiliant swynol y delyn. Fe wnaeth y dydd ddirwyn i ben gyda chanu carolau cynulleidfaol.

Diolch i bawb am wneud y diwrnod yn un hwylus a llwyddiannus. Diolch arbennig i Robert a Delyth Caffi Beca a’u holl staff am y croeso twymgalon ac am baratoi yr holl fins peis a’r te ar gyfer pawb, ac am ein cinio Nadolig blasus y noson honno. Diolch i bob un wnaeth berfformio, yn unigolion, sefydliadau a chorau, ac i bawb a ddaeth i gefnogi - rhai wedi aros am y diwrnod cyfan! Gallwch weld darnau o’r perfformiadau ar dudalen Facebook Corlan.
Fel arweinydd Corlan, hoffwn hefyd ddiolch i aelodau’r côr am bob cymorth yn ystod y dydd, boed hynny yn berfformio, cyfeilio, cyflwyno’r eitemau, gwerthu raffl, dosbarthu tocynnau, tynnu lluniau a chodi arian nawdd o flaen llaw. Diolch hefyd i’r un fuodd allan yn y maes parcio drwy’r dydd yn cadw trefn ar y parcio.

Hyd yma rydym wedi croesi’r swm o £5,000 tuag at Ymchwil Canser Cymru a diolchwn i bawb am eich haelioni. Mae’r casgliad dal yn agored os hoffai unrhyw un arall gyfrannu.
Meddyliwn am bawb sydd yn dioddef, neu sydd wedi dioddef o ganser, ac hyderwn y bydd canlyniad nodau a doniau’r dydd o gymorth ac o les iddynt.



**Teulu Lluest.**



**O’r hen.**



**I’r ifanc.**



**Cynylleidfa yn mwynhau gwrando ar artisitiad amrywiol yn canu yn ystod y dydd.**

**Gwylnos Werin**
Rhai wythnosau ynghynt, buom yn rhan o Wylnos Werin yng Nghrymych. Roedd hon yn noson o ganu yng nghwmni corau a phartïon lleol, a hynny i godi arian tuag at Eisteddfod Genedlaethol y Garreg Las. Diolch i Gwerin Fel ‘Na Mai am y gwahoddiad ac am y croeso a’r hwyl.

## LLANGLYDWEN

**Cydymdeimlo**
Estynnwn ein cydymdeimlad pennaf i Eleri Jones, Glenview a’r teulu ar farwolaeth mam, mamgu a hen famgu annwyl iawn sef Delyth Phillips, San Cler ( gynt o Trevilla )Bu farw Delyth ar Rhagfyr 15fed a cynhaliwyd ei hangladd ar Ionawr 5ed.


Rosemarie Davies
Cyfrifydd Technegol
GWASANAETH
CADW CYFRIFON
Fferm Blaenwaun, Hebron
Ffôn: 01994 419005
Symudol: 07854 212799
*Yn drwyddedig gan*
*Association of Accounting Technicians*

Delwedd
07814 543634
***Salon Harddwch a Chyflenwol***
Crymych
Triniaeth o safon mewn
awyrgylch gartrefol gan Nia

Wyndham Phillips a’i Feibion
POBYDDION
COUNTY STORES
San Clêr
*Bara a chacennau ffres yn ddyddiol*

Ffôn: 01994 230474

# LLANGYNIN

**Gwellhad buan**

Cofiwn am gyfeillion sydd yn anhwylus ar ddechrau’r flwyddyn newydd a dymunwn wellhad buan i Les Evans, Blaenycoed, a Roy Reynolds, Tymore, y ddau ohonynt yn yr ysbyty ar hyn o bryd.

Dymuniadu gorau am wellhad llwyr a buan i’r ddau ohonynt.

**Cydymdeimlad**

Yn dawel yng Nghartref Gofal Maes Llewellyn, dydd Sadwrn Rhagfyr 13, 2025, bu farw un o gymeriadau eiconig pentref Llangynin, sef Gwennie Rees, gynt o Cheerio Stores Llangynin.



Bu Gwennie’n gyfrifol am gadw siop a Swyddfa Bost Cheerio Stores am 44 o flynyddoedd. Daeth pennod yn hanes pentref a phlwyf Llangynin i ben wrth i’r siop gau. Bu’r siop a’r post yn galon y gymuned, yn fan cyfarfod a’r lle i fynd am gwmnïaeth a chlonc.



**Gwennie wrth ei gwaith yn siop Cheerio Stores**

Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant â Graham, Keith, Marina, Gwyneth a'u teuluoedd.yn eu profedigaeth o golli modryb arbennig.

Cynhaliwyd gwasanaeth cyhoeddus dan ofal y Parch. Gareth Ioan ar dydd Mawrth, Rhagfyr 30ain, yng Nghapel Rhydyceisiaid, Llangynin. Roedd y dyrfa luosog a ddaeth ynghyd i dalu'r gymwynas olaf i Gwennie yn dyst o'r parch a'r edmygedd a oedd iddi o fewn y gymdogaeth.

Estynnwn gydymdeimlad hefyd â theulu a chyfeillion June Webster, Llys Deri, a fu farw yn 83 oed ar Ragfyr 5ed.

Un arall o gymeriadau adnabyddus yr ardal a gollwyd ar ddechrau’r flwyddyn, oedd Gerwyn Griffiths, Dôl-y-dderwen (Blaencorse gynt) a thristwch o’r mwyaf oedd clywed am ei farwolaeth. Cydymdeimlwn yn fawr â Sharon a Marian a’u teuloedd i gyd yn eu colled a’u hiraeth.

**Cymdeithas Gymraeg Llangynin**

Cynhaliwyd cinio Nadolig Cymdeithas Gymraeg Llangynin yng Nghaffi Beca, Efailwen,nos Fercher, Rhagfyr 10fed. Croesawyd yr aelodau gan y cadeirydd, Dylan John, a mwynhaodd pob un ginio Nadolig blasus cyn iddo gyflwyno’r siaradwr gwadd, sef Eurfyl Lewis o Langlydwen.



**Y Cadeirydd Dylan gydag Eurfyl y siaradwr gwadd.**

Mwynhaodd yr aelodau wrando ar Eurfyl yn adrodd hanesion difyr am ei blentyndod a throeon ei yrfa. Yn wreiddiol o Login, mae Eurfyl yn gymeriad amlwg ac adnabyddus am ei gyfraniad i fywyd cymunedol yr ardal ac i’r iaith Gymraeg. Ef yw cadeirydd papur bro Y Cardi Bach, mae’n Llywydd Cenedlaethol Cymdeithas yr Hoelion Wyth ac yn weithgar iawn gyda’r




the LONDON HOUSE butchery

Stryd Sant Ioan
Hendygwyn ar Daf
SA34 0AN

01994 240705 / 240055

*Galwch mewn am y dewis gorau*

Dilynwch ni ar Facebook




RUSSELL THOMAS

GWASANAETH HURIO JCB
PEIRIANT CLODDIO 360°
TRACTOR A THREILAR



Copper Beech, Efailwen,
Clunderwen
Ffôn: 01994 419529
Symudol: 07971 558514

gymdeithas honno, y capel, ac mae'n arwain cyngherddau. Ar hyn o bryd mae'n un o hoelion wyth pwyllgor gwaith Eisteddfod Genedlaethol y Garreg Las 2026 ac yn Is-gadeirydd y Gronfa Leol ac felly mae'n brysur iawn yn trefnu gweithgareddau a chodi arian. Rhwng 2010 a 2015, gwasanaethodd fel trysorydd gyda Menter Iaith Sir Benfro.  Bu hefyd yn gweithio i Urdd Gobaith Cymru am flynyddoedd lawer gan weithio i hybu'r defnydd o'r iaith yn y sir. Mae gan Eurfyl record drawiadol o roi gwaed am dros 40 mlynedd. Mae hefyd wedi bod yn weithgar yn codi arian i hosbis plant Tŷ Hafan.
Diolchwyd iddo am ei gyflwyniad diddorol a hefyd i Robert a staff y caffi am y lluniaeth a'r croeso.

Bydd cyfarfod nesaf y Gymdeithas Gymraeg nos Ferch-er, Ionawr 14eg, am 7 o'r gloch yn Neuadd y Bryn a'r wraig wadd fydd Claire Jones, y delynores Gymreig o Sir Benfro a fu'n delynores swyddogol i Dywysog Cymru (Charles III bellach) rhwng 2007 a 2011.
Os hoffech chi ymuno â'r Gymdeithas Gymraeg y tâl aelodaeth yw £15 am y flwyddyn.  Am fwy o wybo-daeth cysylltwch â'r Cadeirydd, Dylan John – 07800 515987, Caroline Jones, Ysgrifennydd – 07854 004478 neu Kevin Roberts, Trysorydd – 07747 847804.

**Capel y Bryn**
Ddydd Sul, Ionawr 4ydd, bu aelodau a chyfeillion Capel y Bryn unwaith eto  yn mwynhau cinio Nadolig hwyr yn Nhafarn y Sporting Chance ym mhentref Rhos-goch. Yn anffodus roedd salwch wedi rhwystro rhai ffyddloni-aid rhag ymuno, ac er i'r eira fygwth rhwystro'r trefnia-dau yn llwyr, fe gafodd aelodau a chyfeillion y Capel rannu cinio arbennig, a mwynhau sgwrs a chwmni ei gilydd wedi Gŵyl y Nadolig.
Diolch i Chloe a Hicham El Khalfi fel arfer am eu croeso twymgalon ac am ginio Nadolig bendigedig!

**Pen blwydd arbennig**
Dymuniadau gorau a phen blwydd hapus i Mary Davies, Angorfa, a oedd yn dathlu ei phen blwydd yn 95 oed ar Ragfyr 6ed. Llongyfarchiadau mawr i chi Mary!

**Ymddeoliad**
Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Mark White, Garnwen, ar ei ymddeoliad yn ddiweddar. Bu Mark yn gweithio i gwmni trenau D.B.Cargo fel gyrrwr ac yn fwy diweddar fel uwch hyfforddwr a mentor. Dymunwn ymddeoliad hapus iawn iddo.

**Diolch**
Dymuna Sioned Jones, Maes-y-Coed, ddiolch o waelod calon i bob un am yr holl gardiau, anrhegion, nege-seuon a galwadau a dderbyniodd ar achlysur ei phen blwydd arbennig yn 18 oed. Diolch yn fawr i bawb.

## LLANDYSILIO

**Penblwyddi**
Penblwydd hapus i Daniel Jones, Ty Gwyn, Llandysil-io, a oedd yn 30 oed ar Tachwedd 29ain.
Hefyd i Jasmine Thomas, Heol y Llan gynt yn 30 oed ar Ionawr 15fed.
....Ac i Blossom Young (wyres Carol Young) a oedd yn 18 oed ar Tachwedd 25ain.

**Cydymdeimlo**
Hoffem gydymdeimlo a Carole Thomas a'r teulu, ar farwoleth Selwyn Thomas, Pwllcware.
...Hefyd gyda Emrys, Sian, Rhian a'r teulu, ar farwola-eth Ann Murrow, Nantyffin gynt.
Meddwl amdanoch i gyd.

**Dyweddio**
Llongyfarchiadau mawr  a dymuniadau  da am y dy-fodol i'r canlynol ar eu dyweddiad:
Dan Phillips a Cali Lewis
Rhys Jenkins a Nia Ceris
Jack Fussell and Jenna Nutt

**Graddio**
Llongyfarchiadau mawr i Indigo Mckay Young ar rad-dio yn Baglor mewn Meddygyniaeth a Baglor mewn Llawfeddygaeth, ym Mhrifysgol Plymouth. (Mae indigo yn wyres i Carole Young)

DAVID HARRIES & Co
CYFANWERTHWYR
FFACTORAU CERBYD
Westgate, West Street,
Hendygwyn ar Daf
Ffôn: 01994 241100
Batteries, Belts, Bearings, Compressors, Clutches, Filters, Hydraulics, Oil, Paint.








**Indigo Mckay Young.**



**Côr Llanddarog a Trystan Llŷr Griffiths.**

**Cyngerdd yr Adfent**

Braf oedd gweld Capel Pisga, Llandysilio yn gyfforddus lawn unwaith eto ar gyfer Cyngerdd yr Adfent Menter Iaith Sir Benfro a Chelfyddydau SPAN. Mae hon yn ddigwyddiad blynyddol bellach ar Sul cynta'r Adfent ac yn rhoi dechrau da wrth arwain tuag at y Nadolig.

Yr artistiaid eleni oedd Côr Llanddarog o dan arweiniad Meinir Richards gyda Sioned Beynon yn cyfeilio iddynt a'r unawdydd lleol sydd yn lais cyfarwydd yn rhyngwladol erbyn hyn, Trystan Llŷr Griffiths gyda Meinir Jones Parry yn cyfeilio iddo.

Gosodwyd naws hyfryd o'r cychwyn gan y côr gyda rhaglen o gerddoriaeth glasurol a chyfoes a phob un ohonynt yn addas i gyfnod yr Adfent a'r Nadolig. Cafwyd cyflwyniadau gan y merched a'r bechgyn ar wahân a'r cyfan yn creu awyrgylch arbennig rhwng muriau'r capel a oedd wedi ei addurno'n gelfydd gan Nia Davies.

Doedd dim angen cyflwyniad ar Trystan Llyr wrth gwrs, ac yntau yn perfformio yn ei ffordd naturiol ei hun ond gyda môr o lais yn llenwi'r lle. Roedd ei raglen ef hefyd yn cynnwys darnau amrywiol ac yn dod â chyfnod paratoi at y Nadolig atom drwy gân.

Roedd y perfformiadau yn wefreiddiol o'r cychwyn a chafwyd clo bythgofiadwy gyda Trystan yn ymuno â'r côr i ganu 'O Ddwyfol Nos' cyn i bawb ymuno i gyd ganu'r garol O deuwch ffyddloniaid gydag arddeliad.

Diolch yn fawr i bawb am eu cymorth gyda'r noson, yn arbennig i Anna Williams ac aelodau Pisga, Myfanwy Lewis a staff a gwirfoddolwyr y Fenter a Chelfyddydau SPAN. Bydd y cyngerdd eleni ar ddydd Sul, 29 Tachwedd ac edrychwn ymlaen at ddigwyddiad arall ar gychwyn tymor yr Adfent 2026.

**Capel Pisga**

Ar ddydd Sul, Tachwedd 30ain cawsom wledd o adloniant ym Mhisga Llandysilio gyda'r artistiaid Trystan Llŷr Griffiths a chôr Llanddarog o dan arweiniad
Mrs Meinir Richards â'r cyfeilyddion Meinir Jones Parry a Sioned Beynon. Rydym yn ddiolchgar i Gelfyddydau Span Arberth a Menter Iaith Sir Benfro am noddi'r noson.

Braf gweld y capel gyda chynulleidfa dda, diolch yn fawr i bawb.



**Trystan Llŷr Griffiths.**

**Trefn Oedfaon**

*Ionawr 2026*

Gwasanaeth Sul y Beibl Ionawr 18fed am 10.30 y.b.

*Chwefror 2026*

1af. Cymundeb am 9.00 y.b. Y Parchedig Eirian Wyn Lewis Cwrdd Eglwys yn dilyn y gwasanaeth









22ain Brecwast Gwyl Rhinwedd a Moes, Caffi Beca, 10 y.b. 22ain o Chwefror. £12 y pen. Siaradwr gwadd Mr Cleif Harpwood. Angen cysylltu a Anna am docynnau. anna.williams2047@gmail.com

*Mawrth 2026*

1af. Cymundeb am 9.00 y.b. Parchedig Eirian Wyn Lewis.

## CYNGERDD

**Capel Pisga Llandysilio**

DYDD SUL 22 MAWRTH 2026

*5.00 o'r gloch*

Drws ar agor am 4.30

JESS ROBINSON

OWAIN JENKINS

CÔR CRYMYCH

Tocynnau: pris llawn £12 consesiwn £10
Oddi wrth Anna Williams
Anna.williams2047@gmail.com

Haulwen Pridmore
Ffôn symudol 07788 816980

# CLUNDERWEN

**Penblwyddi**

Penblwydd hapus i Sarah Williams a oedd yn 50 oed ar Rhagfyr 13eg.
Hefyd i Josh Holloway a oedd yn 30 oed ar Rhagfyr 29ain.

**Cydymdeimlo**

Cydymdeimlwn gyda teulu Gerald Llewellyn, Gower Villa Lane ar ei farwolaeth.
Hefyd cydymdeimlwn a Jason John a'r teulu ar colli eu famgu Val John o Efailwen.

**Llongyfarchiadau**

Da iawn wir i Angela Prickett a'i mab Tom ar ei perfformiad yn Alice in Wonderland yn Saundersfoot. Arbennig.

Llongyfarchiadau enfawr i Dan Llewellyn Blwyddyn 11 Ysgol Bro Preseli, sydd wedi ei ddewis i garfan hyfforddi Sgarlets y Gorllewin dan 16 oed.
Mae hwn yn gyflawniad rhagorol ym myd rygbi ac yn adlweyrchu ei ymroddiad, ei waith caled a'i dalent.
Llongyfarchiadau mawr am gyrraedd y cam hwn a phob lwc wrth symud ymlaen. Da iawn ti.




**Sefydliad y Merched Clunderwen a Llandysilio**

Ar Rhagfyr 1af yn ein pwyllgor misol, dysgwyd sut i ffeltio gan Jess. Ac yna ar Rhagfyr 6ed aethom i Cegin Gareth Richards yn Llambed am arddangosiad coginio a trefnu blodau. Hwn oedd ein parti Nadolig. Diwrnod arbennig, Diolch i Gareth.



AWEN TEIFI
Dewis da o lyfrau Cymraeg i blant ac oedolion, hefyd cardiau a theganau
Ar agor 9yb - 5yh
Llun i Sadwrn
Ffôn: 01239 621370
23 Stryd Fawr
Aberteifi. SA43 1HJ

CENNYDD JAMES
- Adeiladwr
- Adeiladau newydd
- Adnewyddiadau
- Llwybrau a phatios
- Plastero a sgimio
- Adnewyddu simneiau

Gwasanaeth yn y Gymraeg!
Ffôn: 01239 831100
Ffôn Symudol: 07968 163181

Ifan Phillips 07788 424559
CANOLFAN REHAB CENTRE
therapi chwaraeon clinigol
ar gyfer poenau ac anafiadau cyffredinol sy'n gysylltiedig â chwaraeon a gwaith



**Arddangosfa flodau.**

**Clwb Croeso**
Neuadd Cymuned Clunderwen
Ionawr - 22ain Ionawr
Chwefror - 5ed a 19eg
Mawrth - 5ed a 19eg

Croeso cynnes i bawb

# EFAILWEN

**Capel Nebo**
Gwasanaeth Nadolig Ysgol Sul Nebo
Ar fore Sul, 14eg Rhagfyr fe wnaeth plant a phobl ifanc Ysgol Sul Nebo gynnal eu gwasanaeth Nadolig blynyddol. Cyflwynwyd Stori'r Geni gan Charlie, Osian, Iago, Llew, Lewis, Gruff, Begw, Celt, Hannah ac Efan, trwy ddarlleniadau, gweddïau a chaneuon Nadolig a chafwyd eitemau offerynnol gan Lewis ar y ffliwt ac Osian a Hannah ar y piano.



**Y plant a phobl ifanc Capel Nebo.**

Galwodd Siôn Corn hefyd, wedi dod yr holl ffordd o Begwn y Gogledd, a chafwyd tipyn o sbort a sbri ganddo fe ac yna barti te yn y festri i ddilyn.
Croeso cynnes i blant a phobl ifanc yr ardal ymuno â'r Ysgol Sul yn y festri bob bore Sul am 9.30 yb.

**Gwasanaeth yng Nghartref Gofal Waungron**
Ar brynhawn dydd, Sul 21ain Rhagfyr aeth aelodau Capel Nebo i Gartref Gofal Waungron a chynnal gwasanaeth Nadolig i breswylwyr y cartref. Braf oedd gweld nifer o'r preswylwyr yn ymuno yn y canu. Diolch yn fawr i Enfys a staff Waungron am y croeso twymgalon ac am y ddished a'r mins pei blasus yn dilyn y gwasanaeth.

**Plygain Capel Nebo**
Noswyl Nadolig, yn ôl yr arferiad, cynhaliwyd Plygain yn Nebo am 11.30 yr hwyr. Cafwyd darlleniadau, gweddïau a pherfformiadau cerddorol gyda Mrs Jean Jones yn llywyddu a Mr John S Davies wrth yr organ. Braf oedd gweld cynifer wedi dod ynghyd.

## Pwyllgor apel Efailwen, Login, Llanglydwen, Cwm Meils a Hebron

Cafwyd noson fendigedig o garolau ar Ragfyr 7fed yng Nghapel Nebo i goroni blwyddyn llwyddiannus o weithgareddau codi arian tuag at ein pwyllgor apêl. Diolch i aelodau Nebo am addurno'r Capel mor hyfryd a chreu naws Nadoligaidd arbennig. Diolch o galon i John.S.Davies am arwain y noson mor hwylus a chrefftus ac i Jean Jones am gyfeilio. Cafwyd eitemau Nadoligaidd gan blant Ysgol Sul Nebo a pharti merched y Capel hefyd.

Codwyd dros £300 ar y noson tuag at yr apêl sydd wedi ein cynorthwyo i gyrraedd ein targed lleol. Hoffwn ddiolch o galon i Ganolfan Ffynnonwen am ei rhodd hael tu hwnt tuag at yr achos, ac am gyfraniad y Cyngor Cymuned lleol.

Mi fydd y Pwyllgor yn parhau gyda'r gwaith codi arian ac yn bwriadu cyfarfod yn fuan yn y flwyddyn newydd i drefnu'r digwyddiadau olaf cyn i ni groesawu'r Eisteddfod i'n plith.

LLAWN CARIAD
**Detholiad o anrhegion Cymraeg a Saesneg o safon**
Ffôn: 07528 945287 / 07766 418843
Ebost: llawncariad@gmail.com
Facebook: Llawn Cariad
www.llawncariad.co.uk




Bwyd Byd Byd
- Bwydydd a diodydd o Gymru a thu hwnt.
- Bwydydd at ddeiet arbennig
- Bwydydd moethus
- Nwyddau glanhau ac ymolch naturiol
- Nwyddau wedi eu pobi yn y siop.
- Bwydydd cyflawn a chynhwysion bob dydd.
- Gwasanaeth archebu nwyddau a hampers ar gael drwy'r flwyddyn

1 Prospect Place, Crymych, SA41 3QQ
Ffôn: 01239 831537
e.bost: suzannejonesbyb@gmail.com

**Hoelion Wyth Cangen Beca**
Cyfarfod Tachwedd 26ain 2025.
Croesawyd yr aelodau gan ein Cadeirydd, Eifion Evans a chyflwynodd ein siaradwr gwadd sef Emyr Llywelyn o Ffostrasol, sy'n aelod o gangen Banc Siôn Cwilt o'r Hoelion. Digrifwch Waldo Williams oedd testun ei gyflwyniad. Dechreuodd drwy ddweud faint o fraint ac anrhydedd oedd ei fod wedi cael ei adnabod. Disgrifiodd ef fel person llawen, llawn digrifwch ond hefyd heddychwr i'r carn a pherson difrifol oedd yn dioddef pyliau o anhwylder meddyliol ar adegau.

Person pwysig ym mywyd Waldo oedd y Wyddeles a'r lleian - y Chwaer Boscoe (Nora Gabriel Costigan) a fuodd yn ffrind da a gwarchodol iddo am flynyddoedd. Yn 1959, roedd y Chwaer yn brifathrawes ar Ysgol y Fair Ddihalog yn Hwlffordd ac ymunodd hi a'r Chwaer Ignatius â dosbarth nos Waldo Williams ar lenyddiaeth Gymraeg, ac i ddysgu'r iaith. Dywedodd fod Waldo yn athro penigamp ac yn un didwyll, caredig bob amser ac yn ddyn annwyl iawn. Eglurodd Emyr Llywelyn fod gan Waldo ffordd anghonfensiynol o ddysgu a mae'n debyg y gofynnwyd iddo unwaith gan blentyn, "Are you a real teacher?" Byddai'n cario bag brown gydag ef i bob man ac ynddo byddai'n cadw ffrwythau, ei byjamas, brwsh dannedd a'i bapurau darlith. Roedd yn hoff iawn o blant a byddai'n rhoi afalau ac orennau iddynt fel rhodd ac arferai ymweld â safle sipsiwn yn fynych i siarad â'r plant. Wrth iddo agosáu at garafán sipiwn un tro, clywodd lais plentyn yn dweud "Here comes the orange man!"

Bu Waldo yng ngharchar ar ddau achlysur am beidio talu treth incwm ac yno bu'n cymysgu gyda pob math o gymeriadau! Pan ei ryddhawyd bu'n egluro i rai o'r lleianod sut y dysgodd y ffordd i dorri mewn i dŷ! Byddai yn fynych yn teithio ar ei feic yn ei drowsus byr, a phan deithiodd ar draws de Iwerddon un tro a methu cael lle i aros cysgodd ar fainc mewn parc cyhoeddus. Daeth ci ato gan ei wynto a llyfu ei drwyn ac yn hwyrach daeth heddwas a gofyn iddo symud oddi yno. Yn ôl y sôn dywedodd Waldo ei fod wedi cael mwy o barch gan y ci na'r heddwas!

Cafodd ei berswadio i sefyll fel ymgeisydd seneddol dros Blaid Cymru yn Sir Benfro. Er ei ymdrech i fynd o gwmpas ar ei feic i gynfaso dim ond 2,253 o bleidleisiau y derbyniodd. Roedd y sir yn dalcen caled i'r blaid ar y pryd. Holwyd iddo a oedd yn siomedig gyda'r canlyniad, ei ymateb oedd fod llawer gwell gyda fe fod yn Sir Benfro nac yn San Steffan, beth bynnag. Yn ystod yr etholiad canlynol bu'n helpu gydag ymgyrch y blaid a phan fynychodd un o'r cyfarfodydd etholiadol agored yn ardal Hwlffordd dim ond un person arall oedd yn y gynulleidfa. Er hynny cyflwynodd neges y blaid ac ar ôl gorffen cododd y person a gofyn "Can I lock up now?" Ar un adeg gwahoddwyd ef i ddarlithio yng Nghwmtydu ar ben yr odyn galch. Yn anffodus daeth i'r glaw a gorfu iddo eistedd yng nghar T. Llew Jones a parhau â'r ddarlith drwy ffenest y car.

Cawsom noson hwylus a difyr yn ei gwmni a diolchwyd iddo gan Eifion. Diolch hefyd i Robert am ddefnydd y lleoliad ac am ddarparu'r cawl arferol ar ein cyfer.





**Ken Thomas, Eurfyl Lewis ac Eifion Evans yng nghwmni'r siaradwr gwadd sef Emyr Llew.**

## CEFNYPANT

**Capel Cefnypant**
Trist yw cofnodi i'r eglwys golli dau aelod ar ddiwedd 2025.
Bu farw David Phillips, Rhos, Cefnypant, neu Dai Cilhernin i bawb oedd yn ei adnabod, ar ddydd Llun, Tachwedd 10fed.
Yn aelod ffyddlon o'r capel erioed, bu Dai yn ysgrifennydd am 37 o flynyddoedd.
Cydymdeimlwm ag Ann, ei briod, Elin a Rob, Rhian a Llinos, a'r teulu oll.



Ar ddydd Llun, Rhagfyr 15fed, bu farw Delyth Phillips, Glennydd, Sancler, gynt o Drevilla, Cefnypant.
Bu Delyth hefyd yn aelod ffyddlon o gapel Cefnypant, gan gefnogi'r oedfaon a'r cymanfaoedd ar hyd y blynyddoedd. Bu hefyd yn gyfeilydd yn y capel.
Estynnwn ein cydymdeimlad i Brython, ei phriod, ac i Eleri, Eirian, Donna ac Enfys a'u teuluoedd.

**Diolch**
Dymuna Ann a'r merched, Rhos, ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a estynnwyd iddynt yn dilyn colli priod a thad annwyl, sef Dai Phillips.

# GELLYWEN

**Ainon**
Bu mis Rhagfyr yn gymysg o dristwch a hapusrwydd eleni eto. Dydd Sadwrn yr 20ed fe gynhaliwyd angladd Dilwyn Williams a oedd yn byw yn Llanarthne yn nawr. 'Roedd Dilwyn yn gymar annwyl i Delyth ac yn dad a thad-cu arbenig ac yn efaill hoffus i Dylan. Mae'n amlwg fod Dilwyn yn boblogaidd iawn yn ei ardal fel dangoswyd yn ei angladd lle 'roedd y capel yn orlawn. Er nad oedd yn aelod yn Ainon mae gwreiddie y teulu yn ddwfn yn hanes Gellywen ac roedd yn ŵyr i'r diweddar Johny a Edith Jones Passby, ac mae llawer o deulu agos ganddo yn gorwedd yn y fynwent.
Yna y Sul ar ol hynny ar y 21ain fy gynhalion ni ein cwrdd a the Nadolig. Eleni daeth Sion Page atom i gymeryd at y rhannau arweiniol ac yna Catrin ac eleni am y tro cyntaf Mia ei merch yn ein swyno gyda ychydig o ganeuon Nadoligaidd. Yna i'r festry i gael gwledd o frechdanau a chacennau a rhaid dweud fod pawb wedi mwynhau y treiffl oedd Maggie wedi paratoi ar ein cyfer.
Diolch i bawb eleni eto sydd wedi bod yn weithgar dros yr achos yma yn Ainon. Dyfed am ei waith gofalus yn y fynwent, Hywel a Sion am eu gofal am yr adeiladau, Jean am ofalu bod clawdd y fynwent yn edrych ar ei orau gydol y flwyddyn, Brian am ddod i fyny o Hwlffordd i fod wrth yr offeryn, mae wedi bod wrthi nawr ers dros 70 mlynedd, ac wrth gwrs Maggie a Patsy sydd erbyn hyn wedi ysgwyddo'r baich o gadw'r achos rhag suddo.

# TRELECH

Ein cydymdeimlad dwysaf i deulu y diweddar Glyn Davies, ( Rhydygors gynt ) a fu farw ar nos Nadolig ar ol cyfnod hir yn yr ysbyty. Meddyliwn am Myrtle, Rachel a Tomos a'r teulu.
Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Steffan a Rhian, Aelwyd y Coed ar eu priodas ychydig o ddiwrnodau cyn y Nadolig.



**Capel y Graig Trelech**
Bu cyfnod yn arwain at y Nadolig yn gyfnod prysur iawn i'r eglwys.
Cynhaliwyd Cwrdd Chwarter ola'r flwyddyn ar ddydd Iau, Tachwedd 27ain yng Nghapel Seilo, Llangeler, pryd ddaeth cyfnod Jean Lewis fel Cadeirydd y Cyfundeb i ben. Cynhaliwyd y gynhadledd yn y bore ac yn ystod oedfa gymun y prynhawn, croesawyd y Cadeirydd newydd i'r gadair, y Parchedig Gareth Ioan, a chafwyd anerchiad rymus ac ysbrydoledig ganddo. Dymuniadau gorau i'r Parchg Gareth Ioan yn ystod ei gadeiryddiaeth.
Ar Sul ola mis Tachwedd, croesawyd y Parchg Tom Evans am y tro cyntaf i'r capel a chafwyd oedfa hyfryd ganddo yntau. Daeth tyrfa dda o bobl o bob oedran ynghyd ar brynhawn Sul, Rhagfyr 7fed i oedfa gymun o dan ofal Jean gydag aelodau a ffrindiau yn cymryd rhan. Cyn yr oedfa, gwnaeth Mrs Linda Davies, Waunole Fawr, droi'r golau'r goeden Nadolig ymlaen a hefyd cynnu yr ail gannwyll adfent yn y capel.












**Mrs Linda Davies, Waunole Fawr, droi'r golau'r goeden Nadolig ymlaen.**

Yn cymryd rhan bu: Alun Davies, Val Davies, Eifion a Menna Thomas Jones, Alyson Harries ac Eirlys Phillips. Miriam Thomas oedd yn cyfeilio. Yn dilyn hynny mwynhawyd gwin poeth a mins peis yn y festri. Diolch yn fawr i John, Ambrose, Steffan ac Elis am sicrhau bod y goeden yn ei lle, i Eleri am baratoi'r gwin ac Eirlys a Jean am y cacennau. Diolch yn fawr iawn hefyd i deulu Parc-y-dwr, Glandwr am roi'r goeden yn rhad ac am ddim i'r capel.

Daeth cynulleidfa niferus i oedfa Nadolig yr Ysgol Sul a'r bobol ifanc ar Rhagfyr 21ain. Diolch yn fawr i blant yr Ysgol Sul – Alis, Anna, Cadi Lyn, Eiri, Elain, Erin, Gwen, Gwilym, Iwan, Marged B, Marged H, Lois, Luned, Owain, Rosie, Ruby, Llywelyn a Tomos a'r ieuenctid, Anwen, Carys, Dafydd, Deiniol, Dylan, Elin, Elis, Ffion H, Ffion T, Gwawr, Lowri, Miriam, Steffan a Teleri am oedfa a pherfformiad gwych a chofiadwy. Diolch yn fawr iawn i'r athrawon sef Eirlys Phillips ac Eleri Rees am hyfforddi ac i Eirlys Phillips a Buddug James Rees am gyfeilio. Yn dilyn, cawsom syrpreis hyfryd gyda phresenoldeb llon Sion Corn a'i sach lawn yn y capel. Ymlaen a ni wedyn i'r ganolfan am de parti i'r ganolfan. Diolch yn fawr i Sion Corn ac i Arolygwraig yr Ysgol Sul, Meinir Davies, am roi sio-cledi i'r plant. Diolch i bawb wnaeth gyfrannu mewn unrhyw ffordd tuag at yr oedfa a'r te parti.



**Plant yr Ysgol Sul.**



**Y bobol ifanc.**

Oedfa Noswyl y Nadolig - daeth tyrfa niferus i'r oedfa ddwy-ieithog yng ngolau canhwyllau. Yn cymryd rhan oedd: Capel y Graig – Meinir Davies; Alyson, Ffion a Rhian Harries; Caroline Harries; Jean a Gwawr Lewis; Dafydd ac Anwen Phillips; Peter Whittal-Williams; Ffynnonbedr – Llifon Davies ; Llinos Jones; Capel Cendy a Bwlchnewydd – Sioned Beynon; Eira Lewis, Sylvia Thomas; Pen-y-bont – Linda Davies a Tomos Jameson. Y garol gyfarwydd a ddewiswyd ar gyfer ieuenctid yr ardal i'w canu oedd `Tawel Nos'. Eirlys Phillips oedd yn cyfeilio. Diolch i bawb.



**Oedfa Noswyl y Nadolig.**

**D. E. PHILLIPS**
a'i Feibion
TANYBRYN, GLANDWR
*Trydanwyr*
*Siop Radio a Theledu*
CRYMYCH
Setiau ar werth
Ffôn: 01994 419361 / 01239 831589

arwyddion
**EagleSigns**
Gwasanaeth Cyflawn am Arwyddion,
Argraffu a Lifrau Cerbydau
01994 231749
post@eaglesigns-wales.co.uk
www.eaglesigns-wales.co.uk
Uned 3/4, Parc Tir Owen,
San Cler. SA33 4BY

Y GARREG LWYD
Heol Salem, Sancler
**Cartref Oddi Cartref**

Ffoniwch y rheolwraig
01994 230855

Llongyfarchiadau mawr i'n diacon ifanca sef Steffan Harries ar ei briodas gyda Rhian Thomas ychydig o ddiwrnodau cyn y Nadolig. Rydym yn dymuno pob bendith iddynt fel teulu i'r dyfodol.
Dymunwn Blwyddyn Newydd Dda i'n haelodau a chyfeillion.

# CWMFELIN MYNACH

**Ramoth**
Bore Sul, Rhagfyr 14eg cynhaliwyd oedfa Nadolig dan ofal y Parch. Huw George.
Croesawyd pawb i'r oedfa ac yn arbennig, Dafydd a oedd wedi gwella'n wyrthiol wedi'r ddamwain, hefyd Elin ac Alaw. Cawsom neges arbennig gan Huw fel arfer, wrth iddo gyfeirio at wellhad Dafydd drwy sôn am ddod o'r tywyllwch i'r goleuni yn ogystal â bod y Nadolig wedi dod yn gynnar i'r teulu ac i Ramoth. Diolch yn fawr iddo.

**Trefn oedfaon mis Chwefror:**
1af: Oedfa gymun dan ofal Tudur Dylan - 10.30
8fed: Oedfa dan ofal Y Parch. Huw George - 10.30
22ain: Gŵyl Rhinwedd a Moes - Brecwast yng Nghaffi Beca am 10 o'r gloch.
Siaradwr gwadd Mr Cleif Harpwood. Tocyn £12. Enwau a thâl i Ivy Edwards erbyn
Chwefror 8fed.

Dymunwn wellhad buan i Roy Reynolds sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty Glangwili.
….hefyd i Roy Llewellyn a Haulwen Lewis, y ddau yn anhwylus ar hyn o bryd.
Cofiwn am Nansi Evans yng Nghartref Gwernllwyn, Cross Hands gan ddymuno Blwyddyn Newydd well i'r aelodau i gyd.

**Diolch**
Dymuna Dafydd Evans, Closteg, Llangyndeyrn ddiolch i'r Parch. Huw George, aelodau Ramoth, teulu a ffrindiau ac i bawb yn y gymuned gyfan am eu caredigrwydd, consyrn a'r holl gefnogaeth a roddwyd i Elin, Ffion, Cari ac Alaw; Dad, Mam, Sioned a Dewi yn ystod y misoedd diwethaf tra yn yr ysbyty ac ar ôl dod adref.



**Lleisio cartŵn**
Dros adeg y Nadolig dangoswyd cartŵn o'r enw 'Nolig' ar S4C. Osian Snelson o Gaerfyrddin oedd yn lleisio'r carw 'Nolig'. Dyma Osian yn yr Egin yng Nghaerfyrddin ar ôl bod yn gwylio'r ffilm. Da iawn ti Osian.



Penblwydd hapus i Rhys Biggs a ddathlodd ei benblwydd ar Ionawr 15fed yn 13 oed. Cyfarchion oddi wrth y teulu yn Warrington a'r teulu yng Nghwmfelin Mynach.

HUW JONES
ADEILADWR
Dorset House
Heol y Gogledd
Hen Dy Gwyn ar Daf
Ffôn: 01994 240811
Symudol: 07817 633329

DERI PAGE
CIGYDD
Cig o'r ansawdd gorau
Heol y Pentre
San Clêr
Ffôn: 01994 230062
Diolch am eich cefnogaeth

GT TYRES
Arbenigwr mewn
Teiars Ceir,
Masnachol
ac Amaethyddol
Brooklyn Garage
Heol y Castell
Aberteifi. SA43 3AE
☎: 01239 612814 / 07765 034705


## HENLLANFALLTEG

**Eisteddfod Genedlaethol y Garreg Las 2026**
Fe lansiwyd Pwyllgor Apêl Henllanfallteg ar ddiwedd mis Tachwedd gyda targed o £3,500 i'w godi, felly diolch yn fawr i'r criw ddaeth i Gapel Henllan.

Yn dilyn cyflwyniad gan Eurfyl, fe sefydlwyd y canlynol fel swyddogion:-
Cadeirydd: John Evans
Ysgrifenyddion: Sarah Davies a Delyth Morris
Trysorydd: Sian Jackson




Dosbarthwyd tocynnau raffl ac fe drafodwyd cynnal cyngerdd ym mis Mawrth. Gweler poster y gyngerdd.




## SANCLÊR

Taenwyd ton arall o dristwch dros yr ardal pan glywyd am farwolaeth Aled Picton-Davies, Fferm Asgood, yn yr oed cynnar o 19 oed, yn dilyn salwch byr. Meddyliwn am ei rieni, Lloyd ac Andrea, ei chwaer a'i frawd, Amelia a Huw, ei ddyweddi, Erin, ei famgu Joan a'r teulu oll yn eu galar. Roedd Aled, hefyd yn aelod o Glwb Ffermwyr Ifanc SanClêr.
Hefyd bu farw Delyth Phillips, Glenydd, Heol Dinbych y Pysgod ar Ragfyr 15fed. Roedd Delyth a'i gŵr Brython wedi symud i San Cler o Gefn y P ant yn dilyn eu hymddeoliad. Bydd nifer yn cofio Delyth fel aelod o barti Alawon Tâf yn y 60au.Cydymdeimlwn â Brython, y plant Eleri, Eirian, Donna ac Enfys a'u teuluoedd, hefyd â brawd Delyth, sef Meirion Morris, Maes y bryn, ar eu colled.

## RHYDWILYM

Dymunwn wellhad llwyr a buan i Eilir Davies sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty Llwynhelig.
Cofiwn am Nesta Davies sydd yn anhwylus yn ei chartref yn Hwlffordd. Hefyd Anne Youngman sydd yn cael gwahanol arbrofion.
Braf yw deall bod Russell Evans a Verina Thomas wedi gwella ar ol cael triniaeth. Cofiwn hefyd am Emrys Llewelyn sydd yng Nghartref Waungron.
Cydymdeimlwn gyda teulu Vernon Edwards a fu farw yn sydyn iawn. Cydymdeimlwn hefyd gyda Verina Thomas ar ol colli ei brawd yng nghyfraith.
*Trefn oedfaon Chwefror 2026 -*
8fed – Shan Jones, oedfa Gymun am 10.30
22ain – Brecwast Gwyl Rhinwedd aq Moes yng Nghaffi Beca am 10 o'r gloch.

Ken Davies a'i Fab
*Cigyddion*
London House
Crymych
Ffôn: 01239 831978

Siop Bapurau Hendygwyn
Premier
Ffôn: 01994 240531
Stryd Sant Ioan
Hendygwyn ar Daf
'Rydym yn gwerthu:
Papurau, Cylchgronnau, Llyfrau, Cardiau, Tegannau, Melysion, Diodydd, Bwydydd a Hufen Ia.
Trwydded gwerthu diodydd alcohol
Loteri

LAMO'S MOTORCYCLES
*"Dyma'r lle i feicmodurwyr"*
The Showroom
Llandissilio
*Gwerthiant ▫ Gwasanaeth ▫ Atgyweirio*
Ffôn / Ffacs: 01437 563678

# LLANWINIO

**Pwyllgor Adloniant Llanwinio**

Cynhaliwyd yr oedfa garolau flynyddol yn Eglwys Llanwinio ar Nos Sul, Rhagfyr 21ain.

Cafwyd gair o weddi gan Mr Phil Higginson. Croesawyd pawb gan Geraint Evans, Cadeirydd a chymerwyd at y rhannau arweiniol gan aelodau o'r pwyllgor.

Croesawyd a chyflwynwyd Phil Higginson i arwain gyda'i briod Jiwli yn cyfeilio. Hefyd bu grŵp o ddisgyblion a chyn-ddisgyblion o Ygol y Frenni yn chwarae offerynnau yn gefn i'r cyfeilio gan ychwanegu'n hyfryd at naws yr oedfa.

Casglwyd swm sylweddol tuag at Tŷ Croeso. Gwnaed y diolchiadau gan Geraint Evans ar ran y pwyllgor a mwynhaodd pawb gymdeithasu yn y neuadd i orffen y noson.



**Pawb a gymerodd ran yn yr Oedfa Garolau.**

**EISTEDDFOD GENEDLAETHOL Y GARREG LAS 2026**
**Pwyllgor Apêl Llanwinio, Cwmbach, Blaenwaun a Cwmfelin Mynach**

Cynhaliwyd noson Bingo yn Neuadd Llanwinio ar nos Wener, Tachwedd 28ain. Y galwr oedd Eirian James a gwnaed elw sylweddol i'r gronfa leol. Diolchodd Geraint Evans, Cadeirydd i'r rhai fu'n noddi'r gwobrau ariannol a'r gwobrau raffl ac i bawb am eu cefnogaeth.

Neuadd Llanwinio

## TWMPATH

**Nos Wener, Chwefror 28ain**



**am 7.30yh**



yng nghwmni

**DAWNSWYR TALOG**
**PHIL HIGGINSON A'R BAND**

**Mynediad £10 / Plant am ddim**

**Lluniaeth ysgafn**

***Dewch i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi gyda noson o hwyl***
***Croeso cynnes i bawb***

# HENDYGWYN AR DAF

**Capel y Tabernacl, Hendygwyn ar Daf**

Bellach mae'n flwyddyn newydd gyda'r Nadolig wedi mynd heibio. Yn ôl ein harfer, cynhaliwyd oedfa Nadolig hyfryd i'r plant a'r ieuenctid. Cyflwynwyd drama'r Geni ynghŷd â darlleniadau a chanu carolau, ac roedd naws yr oedfa gyfan yn fendithiol dros ben. Yn dilyn yr oedfa cafwyd parti i'r plant gyda'r ymweliad blynyddol gan Sion Corn.



BAR BECA
Rhosfach, Efailwen
Guto Jenkins
Oriau agor Gaeaf: Hydref 1af-31 Mawrth
(Ar gau Llun, Mawrth a Mercher)
Agor Iau a Gwener: 4.30yp - 11yh
Sadwrn a Sul 3yp - 11yh
Oriau Haf: Ebrill 1af - 30ain Medi
(Ar gau nos Lun)
Agor Mawrth, Mercher, Iau 5.30yh - 11yh
Gwener, Sadwrn, Sul 3yp - 11yh
Ffôn: 07554 664316

GSJ
G.S.JENKINS
EFAILWEN, CLUNDERWEN
07554 664 316
Pridd wedi sgrinio ar gyfer blodau, llysiau neu lawnt, hefyd gwasanaeth hurio treilar



Gwasanaeth hurio cloddiwr 3 tunnell
Cludiant am ddim hyd at 6 milltir
GWION JENKINS
Ffôn: 01994 419222
Symudol: 07787 826574

Yna cynhaliwyd oedfa'r Ieuenctid yng ngofal y Parchg, Huw George gyda darlleniadau yn canolbwyntio ar 'Rhagfynegi Genedigaeth Iesu' Cafwyd canu carolau cynulleidfaol arbennig cyn cymdeithasu yn y festri dros ddisgled o de a mins pei.



**Clwb Hwyl Capel y Tabernacl**
Mae Clwb Hwyl y Tabernacl yn mynd o nerth i nerth ac yn cyfarfod bob prynhawn dydd Gwener rhwng 3.30 a 4.30. Ar ddechrau blwyddyn fel hyn, croeso cynnes i bawb.

**Colli Aelod**
Trist yw cofnodi ein bod wedi colli aelod yn ddiweddar sef Mrs Rosina Thomas, Lon Hywel, Hendygwyn. Roedd Rosina yn aelod hawddgar a ffyddlon, ac rydym yn cydymdeimlo yn ddiffuant gyda Norman, Kim, Gail a'r teulu cyfan yn eu colled.

**Cymdeithas Ddiwylliadol Capel y Tabernacl**
Croesawyd Mrs. Lilwen McAllister i'n plith ar gyfer cyfarfod mis Tachwedd a chafwyd brynhawn difyr iawn yn gwrando ar ei straeon a'i phofiadau yn rhedeg gwely a brecwast llwyddiannus iawn yn ardal Pontfaen ynghyd a'i diweddar gŵr Bernard. Clywyd am sut sefydlwyd y fenter ac ambell dro trwstan ar hyd y daith yn ei ffordd di-hafal llawn asbri a chymeriad. Roedd Lilwen a'i chwaer Gwenda hefyd yn diddanu a swyno cynulleidfaoedd ar hyd y wlad gyda'u canu, a bu'r ddwy ar daith gyda Chor Corlan i Slovenia a Barcelona.
Ar ddechrau mis Rhagfyr, croesawyd y Parch. Eirian Wyn Lewis i'n plith. Cafwyd brynhawn difyr dros ben yn ei gwmni yntau hefyd wrth iddo sôn am ei blentyndod yn Llanybydder, dod yn weinidog i Fynachlogddu ac wrth gwrs am ei amryw deithiau tramor i Ganada ond yn bennaf i'r Wladfa ym Mhatagonia.

**Cylch Hywel Dda**
Gwisgodd y plant mewn pyjamas i'r Cylch a daethant a'u hoff dedi am bicnic gyda Pydsi ar gyfer Plant Mewn Angen. Codwyd £61 ar gyfer yr elusen pwysig yma. Diolch yn fawr iawn i bawb am eu rhoddion caredig.




Ar 8fed o Ragfyr, gwisgodd y plant i fyny a chanu caneuon Nadolig i'w teuluoedd yn y Cylch. Perfformion nhw mor dda ac rydym yn falch iawn ohonyn nhw.




Enillwyr Clwb 200 mis Tachwedd:
1af: Rhif 48 Luca a Mila Inward (c/o Christine Evans)
2il: Rhif 59 Sian McDowall
3ydd: Rhif 126 Rita Lewis

Enillwyr Clwb 200 mis Rhagfyr:
1af - Rhif 130 - Nia Bowen
2il - Rhif 81 - Lynne Davies
3ydd - Rhif 53 - Aerona Edwards
Llongyfarchiadau mawr i chi gyd! Diolch yn fawr i bawb am eich cefnogaeth.









Fe wnaethon ni ffarwelio â naw o'n ffrindiau ni cyn y Nadolig achos mae nhw'n dechrau Ysgol fawr ym mis Ionawr. Pob lwc i chi gyd am y dyfodol a byddwn hi'n gweld eisiau chi gyd yn y Cylch.

**Clwb 100 Canolfan Hywel Dda**
Dyma enillwyr misoedd Rhagfyr ac Ionawr o Glwb 100 Canolfan Hywel Dda.

Mis Rhagfyr
1af £60 Emyr Davies
2il £50 Eryl Rosser
3ydd £40 Elizabeth White
4ydd £30 Eileen John
Gwobr arbennig (1) £50 Edward John
Gwobr arbennig (2) £50 Jonathan Hughes

Mis Ionawr
1af £60 Annette Rosser
2il £50 Janet James
3ydd £40 Mathew Bowen
4ydd £30 Philip Jenkins

**Cymdeithas Capeli Bro Hywel Dda**
Oedfa o Fawl
Cynhaliwyd Oedfa o Fawl dan nawdd Cymdeithas Capeli Bro Hywel Dda yng Nghapel Ramoth, Cwmfelin Mynach ar brynhawn Sul, Tachwedd 30ain. Llywyddwyd gan Mrs Meinir Eynon. Bu Ivy Edwards yn gwneud y rhannau arweiniol. Arweiniwyd y canu gan Edryd Eynon a chyfeiliwyd gan Ceirios Jenner.

Croesawodd Meinir gynrychiolwyr o'r dair elusen a ddewiswyd eleni, sef Mari Grug sydd yn Llysgennad i Ymchwil Canser Cymru, ar ran Adran Cemotherapi ysbytai Glangwili a Llwynhelyg; Catherine Jones-Lay ar ran Canolfan Iechyd Arberth a Jade McCormack ar ran Cymdeithas Clefyd Motor Neurone. Cyflwynwyd siec o £1300 yr un iddynt sef cyfraniadau y daith gerdded a gynhaliwyd ym mis Medi.

Diolchodd Meinir i bawb a gymerodd ran yn yr oedfa, i aelodau Capel Cefnypant am drefnu'r daith gerdded a'r lluniaeth (gyda chymorth Ramoth) ac hefyd i'r noddwyr:

| | |
|---|---|
| Bethel Llanddewi | £136 |
| Bethel Mynachlogddu | £200 |
| Blaenconin | £200 |
| Calfaria Login | £300 |
| Cefnypant | £140 |
| Cwm miles | £200 |
| Glandwr | £100 |
| Henllan Amgoed | £491 |
| Llwynyrhwrdd | £350 |
| Moriah | £260 |
| Nasareth Hendygwyn | £100 |
| Nebo | £300 |
| Pisgah | £180 |
| Ramoth Cwmfelin | £240 |
| Rhydyceisiaid | £60 |
| Rhydwilym | £120 |
| Tabernacl Hendygwyn | £200 |
| Trinity Llanboidy | £160 |
| Rhodd | £20 |
| **Cyfanswm** | **£3757** |



**Pawb a gymerodd ran yn yr Oedfa o Fawl.**

Tŷ Bach Twt
ANRHEGION • GIFTS
• CRYMYCH •
01239 831441 / 07900 692678

CBS
CRYMYCH
ADNODDAU ADEILADU
Uned 11B, Parc Gwynfryn,
Crymych. SA41 3RQ
Ffôn: 01239 831444
e-bost: sales@crymychbuildingsupplies.co.uk

COLIN JOHN
Llewelyn Davies
Cyfrifwyr Siartedig
Hendygwyn
01994 240254
www.llewelyndavies.co.uk

# Teyrnged i Carolyn Joyce Codd, Cilgeti ( Gynt o Hendy Gwyn )

Gyda thristwch mawr clywsom am farwolaeth sydyn trwy ddamwain, Mrs Carolyn Joyce Codd, Cilgeti, gynt o Hendy-gwyn ar Daf ar 28ain o Hydref yn 79 oed.
Gwraig annwyl Jim, mam annwyl cariadus Diane a Paul a mam yng nghyfraith parchus Hazel, llys fam Hilary. Mamgu cariadus Llyr, Gethin, Ffion, Elin, Sarah, Owen a Jamie, chwaer annwylaf y diweddar Michael, a modryb annwylaf Mark a Simon.
Ganed mam ym Mhlas Bach Llangynog, yn ferch i Gerwyn a Muriel Davies ar 10fed o Orffennaf 1946, a chwaer fach i Michael.
Aeth i ysgol gynradd Llangynog nes yn 6 oed, cyn symud i fyw i Castell Dwyrain Llanfallteg, lle roedd hi'n mynd ar ei beic i'r ysgol yn ddyddiol, a'i adael yn Gwalia, Llanfallteg.
Hefyd mynychodd yr Ysgol Sul yng Nghapel Rhos, Llanfallteg.
Daeth yn aelod ffyddlon a gweithgar yng Nghapel y Bedyddwyr Nasareth Hendy-gwyn, gyda'r teulu yn mynychu oedfaon yn rheolaidd, ac yn mwynhau cymdeithasu gyda'r aelodau.

Pan yn 11 oed aeth ymlaen i Ysgol Senior Centre, Hendy-Gwyn, ac ar ol gadael ysgol, bu'n helpu edrych ar ol ei mam a hefyd helpu ei thad ar y fferm, tra roedd ei brawd Michael yn mynychu Coleg Gelli Aur.
Roedd yn aelod o Glwb Ffermwyr Ifanc Hendy-Gwyn lle roedd yn cystadlu mewn gweithgareddau amrywiol, ond yn arbennig mewn cystadlaethau rhwymo ieir, bu'r ddawn yma yn werthfawr iawn nes ymlaen yn ei bywyd wrth gynorthwyo Lyn a Brian, Tynewydd ar adeg plifio.
Ymhen amser aeth ymlaen i Goleg Gelli Aur i astudio coginio.
Priododd Dai Bryn Banc ac aethant i fyw gyda'i rhieni yn Castell Dwyrain. Ganed Diane, a dwy flynedd wedyn gwnaethant symud i fyw i Cwrt Villa, Ty Capel Nasareth. Tair blynedd yn ddiweddarach ganed Paul, brawd bach i Diane.
Yno, roedd yn gweithio yn siop VG, a wedyn yn siop fwyd Eileen a Gerwyn Williams, lle cawsant llawer o hwyl a sbri.
Saith mlynedd wedyn, symudodd y teulu i Bryn Banc, lle gweithiodd yn galed ar y fferm am ddeg mlynedd.
Roedd yn mwynhau cymdeithasu mewn gwahanol glybiau a gweithgareddau ac aeth dramor gyda Cor Meibion Hendy-Gwyn i Awstria.
Roedd siopa dillad ar gyfer achlysuron arbennig, paratoi ei gwallt a colur yn rhoi pleser iddi – pictiwr i'r llygaid! Rwy'n siwr buase mam wedi mwynhau gweithio mewn siop trin gwallt, yn aml yn trin gwallt mamgu drwy rhoi "rollers" a "perm" yn ei gwallt.
Cinio blynyddol y Clwb Ffermwyr Ifanc a choginio ar gyfer y paratoadau oedd un o'r uchafbwyntiau iddi, a phleser mam oedd gwahodd cymdogion am wledd, drwy goginio sawl pryd cyn gystal ag unrhyw westy o safon! Rhaid oedd cael dau neu dri dewis o bwdin bob tro. Roedd hi wrth ei bodd hefyd yn pobi pob math o gacennau, tartenni, jam cartre, "ginger beer" a hyd yn oed macsi cwrw ei hunan.
Yn1989, rhaid oedd gadael y fferm oherwydd iechyd Dai, ac adeiladwyd cartref newydd sef Maes y Bryn, ond tair mlynedd yn ddiweddarach, mynd eu gwahanol ffyrdd.
Roedd mam wedi gweithio mewn sawl lle megis Little Chef San Cler, Eynon y Cigydd San Cler, Pobyddion Jenkins Talacharn yn gyrru fan a dosbarthu bara, a Cartref y Bedyddwyr Glyn Nest, Castell Newydd Emlyn.
Ar achlysur ei phenblwydd yn 60 oed, aeth mam ar daith byr mewn "hot air balloon" o Landeilo i Langadog, profiad bythgofiadwy ac anturus iddi. Roedd hi hefyd yn meddu ar hiwmor iach ac yn hoffi cael sbort.
Yna priododd Jim ar 10fed o Orffennaf 2008 a symud i fyw i Cilgeti.
Diddordebau Jim yw hen geir a beiciau modur ac roedd mam wedi ymuno gyda ef yn ei ddiddordeb, yn aml yn teithio o amgylch y wlad yn y "camper van" – aethant ynddi mor bell a'r Alban un tro a cael llawer o hwyl. Roedd hi hefyd wrth ei bodd yn teithio ar y beic modur, neu i fod yn fanwl gywir, Jim yn gyrru'r beic modur a hithe'n eistedd yn jycos iawn yn y "sidecar"! Mam bydde'n darllen y nodiadau ac yn dweud wrth Jim pa ffordd i fynd. Gwnaeth gwrdd a llawer o bobl a gwneud ffrindiau di-ri. Cawsant 17 o flynyddoedd hapus iawn gyda'u gilydd.
Er nad oedd iechyd mam yn dda ( roedd wedi brwydro llawer yn y gorffennol ), roedd yn benderfynol o wneud y gorau ac yn fawr o'i bywyd. Roedd yn cael pleser mawr wrth fynd i wrando ar wahanol fandiau a dawnsio gyda Jim. Un o'i hoff gantorion lleol oedd y gantores canu gwlad sef Sherri o Lanfallllteg.
Roedd hefyd yn mwynhau mynd i wylio sioeau cerdd yn Theatr y Torch, Aberdaugleddau a Neuadd Regency, Saundersfoot.
Mae Paul a finne mor ddiolchgar i mam am ein magwraeth, ei gofal a'i chariad. Aberthodd gymaint drosom ar hyd y blynyddoedd gan ymroi ei chalon, ei meddwl, ei hegni a'i henaid. Roedd hi'n fam arbennig, ffyddlon, gweithgar a charedig, roedd ganddi galon aur. Roedd hi hefyd yn dwli ac yn browd iawn o'i hwyrion a'i hwyresau ac yn hynod falch o'i diweddar brawd, sef Michael, gafodd ei anrhydeddu gyda'r M.B.E. am ei wasanaeth i amaethyddiaeth. Roedd yn ffrind annwyl i bawb ac yn gymwynasgar bob tro at eraill. Roedd wastod gwen ar ei hwyneb.

Cynhaliwyd ei hangladd yng Nghapel y Tabernacl, Hendy-Gwyn ar ddydd Mawrth, m Tachwedd 18fed a daeth tyrfa fawr ynghyd i dalu'r gymwynas olaf iddi.
Diolch i'r Parchedig Huw George am gymryd y gwasanaeth yn y capel ac ar lan y bedd ym mynwent Nasareth.
Diolch hefyd i Mrs Menna Lewis am fod wrth yr organ ac i Meryl James am drefnu'r blodau.
Diolch i Ken a Lynys Davies, trefnwyr angladdau am eu gwaith gofalus ar y diwrnod, i Anne James a swyddogion Nasareth a Roger Skyrme am eu paratoadau yn y fynwent, i Sarah Morris a Caroline James am y lluniaeth ac i Glwb Rygbi Hendy-gwyn am yr ystafell.
Mae'r teulu yn gwerthfawrogi cyfraniadau hael er cof am mam, er budd Ambiwlans Awyr Cymru ac Ymchwil Canser Cymru.
Diolch i bawb am bopeth, byddwn yn gweld eisiau Joyce yn fawr iawn.
"A garwyd mewn bywyd, a drysorir mewn cof."
Jim, Diane, Paul, Hazel, Hilary a'r teulu.

## PWLLTRAP

Da yw deall fod Rhonna Thomas-Phillips, Maes yr Awel, yn gwella'n dda yn dilyn llaw-driniaeth ar ei llaw. Hefyd fod Elfyn Jones, Llwynteg yn gwella wedi triniaeth a bod Phillip Thomas, Gorwel adre yn dilyn cyfnod yn yr ysbyty.
Dymunwn benblwydd hapus i Margaret Bowen, Clos Nathaniel a oedd yn dathlu ei phenblwydd yn 80 oed ar Ionawr 11eg.
Hefyd mae Iona Morgan, Ynyswen, yn dathlu ei phenblwydd yn 70 oed ar Ionawr 20fed. Danfonwn gyfarchion penblwydd ati hithau hefyd.
Bethlehem Newydd
Gyda thristwch y clywsom am farwolaeth Mair Collinge, Banc Ostrey yn 88 oed. Ganwyd a magwyd Mair yn Sgiwen ac wedi gadael ysgol fe hyfforddodd fel nyrs yn Ysbyty Treforys. Yn dilyn ei phriodas ag Arthur ymgartrefodd yn Leeds lle bu'n gweithio fel nyrs bydwraig a nyrs ardal ynghyd â magu dau o blant, David a Rhiannon. Wedi ymddeol 24 o flynyddoedd yn ôl ymgartefodd y ddau yn San Cler lle'r aethant ati i ddysgu Cymraeg a dod yn aelodau ffyddlon a gweithgar o Fethlehem Newydd. Meddai Mair ar lais alto cyfoethog a bu'n aelod o Gôr Llanpumsaint. Cydymdeimlwn yn fawr ag Arthur a David a Rhiannon a 'u teuluoedd yn eu colled.
Cydymdeimlwn hefyd â Eleri Roberts, Mynydd y Garreg, ar farwolaeth disymwth ei gŵr, Peter, ychydig cyn y Nadolig. Cofiwn am Eleri a'r plant, Jayne a Matthew a'r teulu ynghyd â'r perthnasau oll ym Mhwll Trap ar yr adeg anodd hon.

Cydymdeimlwn â Siriol a Jamie Scott-Robonson a'r teulu yng Nghaeredin ar farwolaeth tad Jamie, sef Ian Robinson o Brechin ger Caeredin.
Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Mark White, Garnwen, Llangynin, ar ei ymddeoliad yn ddiweddar. Bu Mark yn gweithio i gwmni trenau D.B.Cargo fel gyrrwr ac yn fwy diweddar fel uwch hyfforddwr a mentor.
Cafwyd nifer o oedfaon bendithiol iawn yn ystod cyfnod yr Adfent. Ar Dachwedd 23ain thema'r oedfa oedd llinach yr Iesu a'r brenin Dafydd yn benodol a chafwyd oedfa hyfryd dan ofal yr aelodau.
Cafwyd hanes Mair, mewn cymeriad, gan Elonwy Phillips ar Dachwedd 30ain a chafodd pawb fendith o'r oedfa hon.
Ar Ragfyr 7fed cafwyd oedfa trydydd Sul yr Adfent eto dan ofal yr aelodau ac oedfa Nadolig hyfryd iawn ar Ragfyr 21ain. Braf oedd gweld cynifer yno a chafwyd mwynhad yn gwrando ar Elin Fflur a Daniel yn canu unawdau a deuawd, ac Anwen a Sioned yn perfformio deuawd ar y ffliwt a'r piano. Hefina oedd yn cyfeilio. Yn dilyn yr oedfa braf oedd cael cyfle i gymdeithasu dros baned a mins pei.



**Yn y llun gwelir pawb a fu'n cymryd rhan yn yr oedfa Nadolig.**

**Tŷ Croeso**
Gyda Nadolig wrth y drws, braf oedd gan Tŷ Croeso i gyflwyno'r holl siocledi a danteithion yma i Wendy Hughes o'r Lloches i'w dosbarthu i blant sydd mewn gofal yn y gymuned. Diolch o galon i bawb a gyfrannodd mor hael unwaith eto. Diolch hefyd i Pethau Olyv am dderbyn yr eitemau. Mae'n dyled yn fawr i'r holl wirfoddolwyr sydd wedi helpu i gasglu a dosbarthu popeth. Bydd cartrefi Fronhaul a Brookfield yn Sanclêr yn derbyn siocledi hefyd. Diolch o galon i bawb ar ran Tŷ Croeso.



Mae Tŷ Croeso yn cefnogi Plant Dewi – elusen sydd yn helpu teuluoedd â phlant ifanc. Dyma rodd arbennig ar gyfer y Nadolig gan wraig leol sydd yn gwneud cwiltiau clytwaith. Diolch o galon am eich caredigrwydd.



Cyflwyno'r arian a gododd Pethau Olyv yn y Noson Ffasiwn i Loches y Gwragedd a Phlant Dewi. Rhannwyd £450 rhwng y ddwy elusen.



## RHYDYCEISIAID

Trist oedd clywed am farwolaeth un o'n aelodau ac un o blant y capel sef Miss Gwennie Rees, Cheerio Villa, Llangynin. Roedd yn aelod ffyddlon a gweithiodd tan ei salwch. Treuliodd y dair mlynedd ddiwethaf yn Nghartref Maes Llywelyn,Castellnewydd Emlyn lle chafodd ofal tyner yno. Roedd yn 92 oed ym mis Tachwedd. Cynhaliwyd yr angladd yn yng Nghapel Rhydyceisiaid ar ddydd Mawrth, Rhagfyr 30ain dan ofal y Parchedig Gareth Ioan Moreia. Yr organyddes oedd Eifiona Lewis, Llangynin a'r trefnwr angladdau oedd Peter Evans, Talacharn.
Cydymdeimlwn yn ddwys â Graham, Mabel, Dafydd, Keith a Mandy, Marina, Rhodri a Heledd a Gwyneth a Jeff a'r perthnasau eraill.
Trist oedd hefyd clywed am farwolaeth un o'n cyn weinidogion sef y Parchedig Edward Griffiths, Llandeilo. Cafodd ei ordeinio yn Triniti, Llanboidy a Rhydyceisiaid ym mis Awst 1961 a bu yma tan 1966.
Cydymdeimlwn yn ddwys a'i briod Rhiannon ac Owain a'r teulu a Rhodri a'r teulu.

**Penblwydd**
Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Ronnie Morgan a dathlodd ei benblwydd yn 91 oed ym mis Rhagfyr a Mair yn 87 ym mis Rhagfyr. Maent yn aelodau ffyddlon yma.

## BANCYFELIN

**Sefydliad y Merched Bancyfelin**
Cynhaliodd Sefydliad y Merched Bancyfelin gyfarfod llwyddiannus ym mis Rhagfyr, pan gafodd yr aelodau gyfle i greu trefniant bwrdd dan arweiniad gofalus Meinir a Gill. Roedd y noson yn un hynod o bleserus, a diolchwyd yn gynnes i Meinir am gynnal yn noson, yn ogystal â Sian ac Eleri am ddarparu'r lluniaeth.



Estynnir llongyfarchiadau arbennig i un o aelodau'r sefydliad, Mair, ar ennill Gwobr Chwaraeon Menyw y Flwyddyn Sir Gâr. Llongyfarchiadau pellach iddi hefyd am ennill y gystadleuaeth chwist, gyda Gwyneth yn dod yn ail.





Canmolwyd pawb a gymerodd ran yn y gystadleuaeth am eu cefnogaeth.
Yn ogystal, cafodd Sefydliad y Merched Bancyfelin y fraint o ennill Tlws Chwaraeon Sefydliad y Merched 2025 ar gyfer sefydliadau â 25 o aelodau neu lai. Llongyfarchiadau cynnes i'r holl aelodau ar y gamp hon.

**Capel Cana**
Cynhaliwyd Oedfa Nadolig Capel Cana bnawn Sul 14 Rhagfyr. Cyflwynodd y plant eu gwaith yn ardderchog gan ein harwain i ystyried pwysigrwydd symboliaeth y goeden Nadolig. Wedi'r oedfa mwynhawyd te parti yn y festri a daeth Sion Corn ar ei ymweliad blynyddol.
Capel Bancyfelin



**Capel Bancyfelin**
Cynhaliwyd dathliad Nadolig hyfryd yng Nghapel Bancyfelin ar nos Sul, Rhagfyr 21ain gyda nifer o deuluoedd ac aelodau yn cymeryd rhan mewn oedfa dan olau cannwyll. Daeth Sion Corn ar ei ymweliad blynyddol a mwynhawyd paned a mins pei wedi'r oedfa. Diolch i bawb a ddaeth i gefnogi.



**Gibeon, Bancyfelin**
Gyda thristwch y clywsom am farwolaeth Delyth Phillips, Glenydd, San Cler. Cydymdeimlwn yn ddiffuant â Meirion Morris, ei brawd a Dorothy, Llwyn Meredydd, ei chwaer-yng-nghyfraith ar eu colled.
Dymunwn benblwydd hapus i Noel James, Brynteg a oedd yn dathlu ei benblwydd yn 70 oed cyn y Nadolig a Iona Morgan sydd yn dathlu ei phenblwydd hithau yn 70 oed ym mis Ionawr.

**Oedfa Nadolig**
Cynhaliwyd yr Oedfa Nadolig ar brynhawn Sul, Rhagfyr 14eg ac er y tywydd garw a thostrwydd, braf oedd cael cynulleidfa niferus yn bresennol. Bu ieuenctid yr Ysgol Sul yn cyflwyno stori'r Tynnwr Lluniau oedd yn dangos sut mae paratoadau  a dathliadau cyfoes yn amharu ar neges y Nadolig. Fe gawsom dair cân "Doedd dim golau ar y goeden", "Tawel Nos " a "Nadolig Llawen i chi i gyd" yn hyfryd iawn ganddyn nhw hefyd. Cafwyd darlleniadau gan yr aelodau a gweddi bwrpasol gan yr ieuenctid. Roedd Hilary'n cyfeilio ar yr organ a hyfryd iawn oedd cael Sioned yn cyd-gyfeilio ar y ffliwt. Sain arbennig. Ar ddiwedd yr oedfa, gan fod Sion Corn wedi gadael anrhegion i aelodau'r Ysgol Sul, bu Iona yn rhoi ychydig o hanes gweithgareddau'r Ysgol Sul yn ystod y flwyddyn a chyflwyno rhodd i bob un. Diolchodd Marian i bob un a fu'n paratoi'r oedfa ac yn cymryd rhan. Yn dilyn yr oedfa mwynhaodd pawb luniaeth ysgafn ar y festri. Prynhawn bendithiol iawn.



## PEN-Y-BONT

Cynhaliwyd oedfa garolau hyfryd yng Nghapel Pen-y-bont cyn y Nadolig o dan arweiniad aelodau'r ofalaeth. Diolch i bawb a ddaeth ynghyd; er gwaethaf y gwynt a'r glaw, a braf oedd cymdeithasu yng nghwmni ein gilydd dros baned a chacen cyn dychwelyd am adre.
Yn y llun gweler yr aelodau a fu'n cymryd rhan yn yr oedfa.



# Y CARDI BACH, BACH

**Papur Bro Dyffryn Taf**

**CARIAD O BETH CARDI BACH**

## YSGOL BANCYFELIN

**Wythnos Gwrth-fwlio**

Yn ystod Wythnos Gwrth-fwlio gwisgodd y plant sanau od i'r ysgol er mwyn codi ymwybyddiaeth. Gwelwyd amrywiaeth o sanau doniol, sanau cynnes a sanau lliwgar iawn!

Hefyd yn ystod yr wythnos bu'r plant yn trafod sut i siarad yn garedig gydag eraill er mwyn gwneud i unigolion deimlo'n fwy positif a gwneud gwahaniaeth yn eu bywydau bob dydd. Gobeithio bydd pawb yn cofio'r neges bwysig tu hwnt o fod yn garedig i eraill bob amser.

**Diwrnod Plant Mewn Angen**

Dathlwyd Diwrnod Plant Mewn Angen yn ôl yr arfer yn yr ysgol trwy wisgo pyjamas, gwneud casgliad a chynnal gweithgareddau amrywiol. Bu'r plant yn brysur yn creu posteri ac ati er mwyn codi ymwybyddiaeth ymysg y disgyblion.

**Gwasanaeth Diwrnod Hawliau Plant gyda Chomisiynydd Plant Cymru**

Dathlwyd Diwrnod Hawliau Plant UNICEF 2025 yn yr ysgol trwy wrando ar neges Comisiynydd Plant Cymru a chymryd rhan mewn nifer o weithgareddau gwahanol er mwyn dysgu am bwysigrwydd yr erthyglau sy'n berthnasol i holl blant Cymru.

**Cwis Siarter Iaith**

Bu plant dosbarthiadau Cywyn a Mihangel yn mwynhau dysgu mwy am Gymru wrth gymryd rhan yng nghwis Siarter Iaith e-Sgol. Er na ddaethom i'r brig roedd pawb wedi mwynhau'r cwis Kahoot ac wedi dysgu llawer o ffeithiau diddorol.

**Ymweliad Mr Matthew Robinson – From Wales**

Diolch o galon i Mr Robinson, un o rieni'r ysgol, am ddod i siarad gyda ni am ei drip diweddar i Malawi. Bu allan ym Malawi yn cynorthwyo pobl lleol mewn amryw o ffyrdd. Clywsom am From Wales, Fisherman's Rest, Tilly the Truck a Tiyamike. Roedd y plant wrth eu boddau yn gwrando arno yn trafod ei brofiadau anhygoel.

**Ymweliad Siân Corn**

Eleni eto rydym yn hynod o ddiolchgar i Siân Corn am ymweld gyda Dosbarth y Llan er mwyn cynnal sioe hudolus Nadoligaidd. Cafodd y plant gyfle i ddysgu am draddodiadau Nadolig ar draws y byd trwy stori, caneuon a dawns. Roedd pawb wedi'u swyno ac yn wên o glust i glust trwy gydol y sioe.



**Trip Rheilffordd Gwili**

Cafodd pawb ddiwrnod penigamp ar ein trip i Rheilffordd Gwili ar ddechrau'r mis. Cawsom lawer o hwyl yn teithio ar y trên, cyfle i sgwrsio gyda Siôn Corn ac amryw o weithgareddau eraill a drefnwyd ar ein cyfer. Buom ar y trên bach, yn dysgu sut oedd y Post Brenhinol arfer didoli llythyron blynyddoedd maith yn ôl, yn gweld sut mae injan stêm yn gweithio ac yn sgwrsio gyda'r gwirfoddolwyr er mwyn dysgu rhagor am y rheilffordd. Diolch o galon i staff a gwirfoddolwyr y rheilffordd am drefnu diwrnod addysgiadol llawn gweithgareddau diddorol.



**Cylch Meithrin Bancyfelin**

Diolch o galon i staff a disgyblion Cylch Meithrin Bancyfelin am y croeso cynnes. Mwynhaodd Dosbarth y Llan fore llawn gweithgareddau diddorol, chwarae a chymdeithasu yn eu cwmni.

**Ffair Nadolig Neuadd Bancyfelin**

Eleni eto cawsom wahoddiad i ganu yn Ffair Nadolig y Neuadd. Mwynhaodd y plant gymryd rhan yn perfformio rhai carolau a chael cyfle i gwrdd â Siôn Corn. Diolch yn fawr am y gwahoddiad i gael bod yn rhan o'r digwyddiad.

**Gwasanaeth Nadolig yng Nghapel Bancyfelin**
Cynhaliwyd Gwasanaeth Nadolig yr Ysgol yng Nghapel Bancyfelin ar nos Fercher, Rhagfyr 10fed. Braf oedd gweld y Capel yn llawn rhieni, perthnasau a ffrindiau'r ysgol gyda phawb yn mwynhau. Cyflwynwyd Stori'r Geni gyda'r plant yn canu, llefaru a pherfformio gyda brwdfrydedd. Roedd yr awyrgylch yn hyfryd, yn llawn llawenydd yr ŵyl ac yn ddiweddglo perffaith i dymor prysur.
Diolch o galon i'r Parchedig Beti Wyn am ganiatáu i ni ddefnyddio'r Capel ar gyfer ein gwasanaeth ac i'r aelodau am sicrhau fod y Capel yn glyd ac yn gynnes yn ystod ein ymarferion. Rydym fel ysgol yn ddiolchgar iawn i chi.

**Parti Nadolig ac Ymweliad Siôn Corn**
Yn ystod wythnos olaf y tymor bu llawer o gyffro yn yr ysgol a chafwyd amser prysur iawn yn dathlu'r Nadolig. Ar ddechrau'r wythnos cynhaliwyd ein Parti Nadolig gydag amryw o gemau, canu a dawnsio. Diolch yn fawr i Gymdeithas y Cyfeillion am ddarparu bocsys parti a gemau i ni i fwynhau. I goroni'r dathliad daeth Siôn Corn i ymweld â ni gan ddod â gwen fawr a chyffro arbennig i'r disgyblion. Cafodd pawb anrheg bach wrtho a gwnaethant ganu cwpwl o ganeuon er mwyn diolch iddo am alw heibio.

**Cinio Nadolig**
Diolch o galon i staff y gegin, Miss Lauren a Miss Tania am weini cinio Nadolig blasus tu hwnt i ni unwaith eto eleni. Bu disgyblion Blwyddyn 6 yn dangos eu gwerthfawrogiad trwy ddiolch yn bersonol iddynt am eu gwaith dros y flwyddyn ac yn arbennig am y cinio Nadolig cyn eistedd i fwynhau pryd arbennig iawn.

## YSGOL BECA

**Dosbarth Carn Gyfrwy**
Mae Carn Gyfrwy wedi bod yn brysur yn dysgu popeth am ailgylchu ac ailddefnyddio. Mae'r plant wedi mwynhau creu eu hysbysebion teledu eu hunain i hyrwyddo ailgylchu ac wedi cynhyrchu gwaith celf gwych wedi'i ysbrydoli gan artist sy'n defnyddio deunyddiau wedi'u hailgylchu. Maen nhw wedi dylunio posteri i annog eraill i roi sbwriel yn y bin ac wedi gwneud offerynnau cerdd o sbwriel i gyfansoddi a pherfformio eu cân eu hunain. Yn ystod gwersi cerddoriaeth, mae'r dosbarth wedi bod yn dysgu am rhythm ac yn archwilio synau gwahanol. Un o uchafbwyntiau'r hyd yma oedd ein taith i'r ganolfan ailgylchu, lle dysgon ni beth sy'n digwydd i'n sbwriel ac am bwysigrwydd ailddefnyddio. Mae'r plant hefyd wedi cael llawer o hwyl yn ailddefnyddio finylau i greu celf, darganfod mwydod, ac archwilio hen dechnoleg i weld sut mae pethau'n gweithio. Mae'r plant yn edrych ymlaen at ddysgu mwy am ailgylchu a'r byd o'n cwmpas.

**Dosbarth Cwm Cerwyn**
Rydym ni wedi derbyn profiadau prysur ac arbennig iawn yn nosbarth Cwm Cerwyn! Rydym ni wedi mwynhau'n fawr ein sesiynau rygbi gyda Ilan o Glwb Rygbi Arberth – rydym ni wedi dysgu llawer o sgiliau newydd ac wedi cael hwyl fawr yn gweithio fel tîm. Un o'r uchafbwyntiau hyd yma oedd perfformio yn y cyngerdd yng Nghaffi Beca i godi arian ar gyfer Eisteddfod Y Garreg Las – roedd yn hyfryd bod yn rhan o ddigwyddiad yn ein cymuned leol!



Rydym ni hefyd wedi mwynhau ein gwersi cerddoriaeth a recorders, ac aethon ni i wylio'r gerddorfa sir yn perfformio yn Ysgol Dyffryn Taf – roedd yn wych! Fel rhan o Ddiwrnod Cenedlaethol Ffitrwydd, fe wnaethon ni gymryd rhan mewn Diwrnod Hwyl Ffederasiwn llawn gweithgareddau a gemau. Yn ystod Gwener Gwyllt, rydyn ni wedi bod allan yn yr awyr agored yn archwilio natur ac hyd yn oed wedi trio llosgi coed! Rydym ni wedi dysgu am Ddiwali a Mis Hanes Pobl Dduon, cymryd rhan mewn gwersi Adobe Live, ac wedi dechrau dysgu Iaith Arwyddion Prydain fel iaith ychwanegol hefyd. Roedd rhai o'n dosbarth ni hefyd wedi cymryd rhan yn y cystadlaethau coginio Cogurdd a Poburdd ar gyfer Eisteddfod yr Urdd – pa gogyddion talentog sydd gennyn ni yn Cwm Cerwyn! Mae wedi bod yn dymor llawn hwyl a dysgu – dydyn ni ddim yn gallu aros i weld beth fydd yn dod nesaf!

**Cyngerdd Nadolig Ysgol Beca**
Perfformiodd ein disgyblion gyngerdd Nadolig yr ysgol yng Nghapel Nebo, Efailwen. Roedd yn bleser gweld cymaint o waith caled, dychymyg ac ymroddiad yn dod ynghyd mewn perfformiad ysgol gyfan. Rhoddodd y gyngerdd gyfle i'r plant arddangos eu doniau, magu hyder a pherfformio gyda balchder o flaen y gymuned. Gwelwyd y disgyblion yn adrodd, canu, ac yn chwarae offerynnau fel grwpiau ac yn unigol, gan gynnwys rhannu arferion Nadolig ar draws y byd. Roedd eu brwdfrydedd a'u gwaith caled i'w gweld ym mhob rhan o'r gyngerdd, gan greu profiad cofiadwy.
Ar ôl y gyngerdd, cynhaliwyd marchnad grefft yn y festri dan arweiniad Blwyddyn 6, ynghyd â lluniaeth i'r gymuned. Llwyddodd disgyblion Blwyddyn 6 i godi swm sylweddol o arian ar gyfer yr ysgol drwy werthu cynnyrch Nadoligaidd a datblygu eu sgiliau menter a busnes wrth wneud hynny.

# YSGOL GRIFFITH JONES

Ar ddechrau blwyddyn newydd hyfryd oedd croesawu 16 o blant newydd atom i ymuno â theulu Ysgol Griffith Jones.

Ymwelwyr ac Ymweliadau tymor y Nadolig

Cafodd plant Cam Cynnydd 1 fore hwyliog iawn yng nghwmni Siân Corn.

Diolch i'r artist lleol Lisa Evans am ei gwaith gwych yn gweithio gyda'r disgyblion ar frig yr ysgol. Mae'r cerflun gorffenedig wedi cyrraedd gyda'r gwaith wedi'i arddangos yn broffesiynol ar iard yr ysgol. Mae'r gwaith yn cynnwys golygfeydd gwahanol o gynefin y plant. Ariannwyd y cerflun gan Brosiect y Deg Tref.



Aeth disgyblion Blwyddyn 1 o ddosbarthiadau Gwenllian a Beca  i Neuadd y Gwendraeth i fwynhau sioe Nadolig Cyw.

**Côr yr ysgol**

Cafodd côr yr ysgol amser prysur y tymor diwethaf. Fe fuon nhw'n canu fel rhan o berfformiad Nadolig Cam Cynnydd 1. Fe ganon nhw hefyd yn ein gwasanaeth Diolchgarwch gan orffen y tymor drwy ganu i'r henoed yn Nghartref gofal y Garreg Lwyd.

**Cymdeithas Rieni a Ffrindiau**

Cafwyd noson lwyddiannus unwaith eto yn ein noson 'Bingo Ben' draddodiadol. Codwyd dros £3000. Braf oedd gweld y neuadd yn llawn a phawb wrth eu boddau yn cymdeithasu wrth chwarae bingo. Diolch yn fawr i bawb am gefnogi ac am eu rhoddion. Diolch arbennig i Mrs. Elinor Evans a'r GRAaFf am eu gwaith caled yn sicrhau llwyddiant y noson.

**Cogurdd a Phoburdd**

Llongyfarchiadau i Ethan Hallet am gystadlu yn rownd rhanbarthol Cogurdd yn Ysgol Bro Myrddin. Llongyfarchiadau mawr iddo am baratoi brecwast sawrus bendigedig.  Llongyfarchiadau hefyd i Sam Davies a fu'n paratoi cacen ddathlu arbennig ar gyfer rownd rhanbarthol Poburdd. Da iawn i'r ddau ohonynt am gyrraedd safon mor uchel.

**Nadolig**

Roeddem fel staff yn falch iawn o'n disgyblion a phleser oedd gweld pob disgybl yn disgleirio wrth berfformio yn ein sioeau Nadolig. Gyda bron i 300 o ddisgyblion yn yr ysgol i gyd, tipyn o dasg yw ceisio llwyfannu sioeau gan roi cyfle i bawb i ymddangos ar y llwyfan. Aeth disgyblion Cam Cynnydd 2 â ni yn ar daith gyda Sion Corn yn 'Siwrne Sion Corn'. I'r lleuad aeth Cam Cynnydd 3 gyda'r sioe 'Hen Wr y Lleuad'. Roedd yr hen ŵr a'i ffrindiau wedi teithio lawr i Gymru i chwilio am garedigrwydd y Nadolig ar hyd y wlad. Yn ystod y siwrnai daeth ar draws siopwyr prysur, rapwyr, a rhai o ffermwyr Cymru'n proestio dros gael chwarae teg.

Cyflwynodd y dosbarthiadau Meithrin a Derbyn berfformiad hyfryd o 'Y Stabl Clyd'.

Diolch i bawb ar y staff am weithio fel tim i baratoi'r sioeau arbennig ac i'r rhieni am eu cefnogaeth drwy baratoi gwisgoedd gwych i'ch plant.



**Plant yn perfformio.**

Cynhaliwyd partïon gydag ymweliad arbennig wrth Sion Corn ac fe fwynhaodd pawb ginio Nadolig blasus iawn yn eu siwmperi Nadolig.

Derbyniodd bob plentyn anrheg  Nadolig oddi wrth Gyngor Tref Sanclêr eleni eto – diolch yn fawr iawn iddynt am eu caredigrwydd.



# YSGOL BRO BRYNACH

**Cogurdd a Phoburdd yr Urdd**
Bu dau o'n disgyblion yn cystadlu'n ddiweddar ar lefel sirol yng nghystadlaethau CogUrdd a PobUrdd, gan gynrychioli'r ysgol yn falch. Dangosodd y ddau hyder, ymrwymiad ac brwdfrydedd, gan berfformio'n arbennig o dda o flaen y beirniaid. Rydym yn hynod falch o'u gwaith caled a'r ffordd y gwnaethant gynrychioli'r ysgol.

**Ffair Nadolig Pentref Llanboidy**
Diddanodd y disgyblion drigolion Llanboidy ar noson Ffair Nadolig y pentref wrth ganu amryw o ganeuon Nadoligaidd. Diolch i'r pwyllgor am ein gwahodd eleni eto ac am gefnogi'r ysgol ar bob achlysur.

**Sioe Nadolig 'Y Plentyn, Y Wahadden, Y Llwynog a'r Ceffyl**
Perfformiodd ein disgyblion sioe Nadolig yr ysgol eleni, Y Plentyn, y Wahadden, y Llwynog a'r Ceffyl, yn Neuadd y Farchnad Llanboidy, ac roedd yn wych. Roedd yn bleser gweld cymaint o waith caled, dychymyg ac ymroddiad yn dod ynghyd mewn perfformiad ysgol gyfan. Rhoddodd y sioe gyfle i'r plant arddangos eu doniau, magu hyder a pherfformio gyda balchder ar lwyfan o flaen y gymuned. Roedd eu brwdfrydedd a'u gwaith caled i'w gweld ym mhob golygfa, gan greu profiad cofiadwy a fydd yn aros gyda nhw am amser maith. Diolch yn fawr iawn i'r staff am eu paratoadau manwl a'u gofal wrth gefnogi'r disgyblion drwy gydol ymarferion a'r perfformiad ei hun. Mae'r ymroddiad hwn yn gwneud cymaint o wahaniaeth i brofiad y plant. Diolch hefyd i'r rhieni a'r CRhA am eu cefnogaeth barhaus, ac i'r rhai a helpodd y tu ôl i'r llen i sicrhau bod popeth yn rhedeg yn esmwyth ar y noson. Rydym yn ddiolchgar iawn i Neuadd y Farchnad Llanboidy am ganiatáu inni ddefnyddio'r cyfleusterau ardderchog, a gwneud y digwyddiad yn bosibl. Diolch hefyd i rieni am eu presenoldeb, eu cefnogaeth a'u cyfraniadau caredig, ac i'r gymuned ehangach am y gefnogaeth barhaus sy'n golygu cymaint i'n hysgol.



**Sioe Bro Preseli - 'Chitty Chitty Bang Bang'**
Ar ddydd Mercher, Rhagfyr 3ydd, cafodd Blynyddoedd 5 a 6 y fraint o fynd i weld sioe 'Chitty Chitty Bang Bang' yn Ysgol Bro Preseli. Mwynheuodd y plant mas draw a braf oedd gweld cymaint o gyn-ddisgyblion.

**Sesiwn Pel Rwyd gyda Actif Sir Gâr**
Diolch i Actif Sir Gâr am ddod allan i roi sesiwn sgiliau Pêl Rwyd i ddisgyblion 4, 5 a 6. Mwynheuodd y plant ddysgu am ochrgamu, pasio a chwarae gemau.

**Cinio Nadolig**
Ar ddydd Mawrth, Rhagfyr 16eg cafwyd cinio Nadolig blasus. Diolch i Jonathon a Cynthia am baratoi y cinio ac am eu gwaith caled drwy'r flwyddyn.

**Parti Nadolig**
Mwynhaodd pob dosbarth eu parti Nadolig eu hunain, yn llawn hwyl a chyffro Nadoligaidd. Cymerodd y disgyblion ran mewn gemau, cerddoriaeth a dawnsio, a rhannu danteithion gyda'u cyd-ddisgyblion. Cafodd pawb amser bendigedig yn dathlu gyda'i gilydd ar ddiwedd y tymor.

**Canu o gwmpas y goeden Nadolig**
Ar ddiwrnod olaf y tymor cyn gwyliau'r Nadolig, daeth rhieni ac aelodau o'r gymuned ynghyd yn neuadd yr ysgol i fwynhau brechdanau twrci a gwin cynnes. Yna symudodd y dathliadau y tu allan, lle cafodd pawb gyfle i wylio disgyblion yr ysgol yn canu gyda'i gilydd o amgylch y goeden Nadolig o flaen yr ysgol. Roedd yn ddiwedd addas i dymor prysur ac yn ffordd braf o nodi dechrau'r cyfnod Nadoligaidd. Diolch yn fawr i bawb am gefnogi.



**Y plant yn canu o gwmpas y goeden Nadolig.**

**Ymwelydd dosbarth Cynin**
Buom yn lwcus iawn i gael un o'r rhieni i ddod i siarad gyda'r plant am ei chartref cynaliadwy. Dysgodd y plant am lawer o bethau yn cynnwys gwahanol fathau o greu egni a dysgwyd pa wahanol ddefnyddiau a defnyddiwyd i adeiladu tŷ Eco. Diolch eto i chi Erica am ddod allan.

**Dychwelyd i'r Ysgol**

Blwyddyn Newydd Dda i bawb. Gwnaeth yr eira rhwystro'r ysgol i ail-agor ar ddydd Llun, Ionawr 5ed, a'r plant yn mwynhau adref gyda'u teuluoedd yn chwarae yn yr eira. Croeso mawr i'r disgyblion newydd yn nosbarth Lliwe, a phob dymuniad da i chi ar eich taith drwy'r ysgol.

## YSGOL LLYS HYWEL

**Chwaraeon**

Mae wedi bod yn ddechrau prysur a chyffrous arall i'r tymor ym maes chwaraeon yn Ysgol Llys Hywel. Mae disgyblion wedi cael y cyfle i archwilio amrywiaeth eang o weithgareddau, gan gynnwys rygbi, pêl-droed, pêl-rwyd a sgiliau criced. Maent eisoes yn edrych ymlaen at gymryd rhan mewn mwy o gystadlaethau yn y flwyddyn newydd ac yn cwblhau eu bloc nesaf o nofio.



**Ymweliadau/ dathlu diwrnodau**

Yn ystod y tymor, mae'r plant wedi mwynhau dau ymweliad â Dyffryn Taf i wylio'r sioe gerdd Shrek a chyngherdd Peripatetig Proms. Yn ogystal â hyn, croesawyd ein PCSO lleol a'r Gwasanaeth Tân (Operation Bang), a gyflwynodd sesiynau pwysig ar ddiogelwch tân a sut i aros yn ddiogel ar noson tân gwyllt a Chalan Gaeaf.

Fel ysgol, rydym wedi codi ymwybyddiaeth ac wedi dathlu nifer o ddigwyddiadau cenedlaethol a diwylliannol. Roedd y rhain yn cynnwys 'Diwrnod Dim Pensiliau', lle cwblhaodd disgyblion ddiwrnod cyfan o weithgareddau sy'n canolbwyntio ar lafar; Diwrnod Ewropeaidd Ieithoedd, gyda Ffrangeg fel ein hiaith ffocws; Wythnos Gwrth-fwlio, a oedd yn cynnwys gwasanaeth ysgol gyfan a gyflwynwyd gan ein pwyllgor Cyngor Ysgol; Plant mewn angen, lle cynhaliwyd sioe dalent wych.

Fe ddathlom hefyd Ddiwrnod Shwmae gyda disgo tawel ysgol gyfan yn cynnwys amrywiaeth o gerddoriaeth Gymraeg, a Diwrnod T. Llew Jones, lle oedd y pwyllgor Siarter Iaith yn arwain gwasanaeth arbennig.

**Poburdd/ Cogurdd**

Llongyfarchiadau i Keira Evans, Millie Steel a Martha McNamara, a gynrychiolodd yr ysgol yn Poburdd / Cogurdd y tymor hwn. Llongyfarchiadau arbennig iawn i Keira, a ddaeth yn drydydd yn y gystadleuaeth ddiweddaraf a gynhaliwyd yn Ysgol Bro Myrddin.



**Gweithgareddau Nadolig**

Dechreuodd paratoadau'r Nadolig yn gynnar yn Ysgol Llys Hywel eleni. Dyluniodd rhai o'n disgyblion hŷn focsys post Nadolig ar gyfer busnesau lleol fel rhan o'r gystadleuaeth "Ennill y Nadolig yn Hendy-gwyn." Erbyn diwedd Tachwedd, roedd disgyblion hefyd wedi creu dyluniadau Nadoligaidd ar gyfer cerdyn swyddogol y Nadolig gan yr Aelod o'r Senedd leol, Samuel Kurtz.

Yn fwy diweddar, mynychodd disgyblion ddigwyddiad cynnau goleuadau Nadolig Hendy-gwyn ac fe gânnon nhw'n hyfryd o amgylch y goeden Nadolig— da iawn blant.

Yn ogystal â hyn, mi oedd rhai o'r disgyblion wedi canu yn ystod y noson canu carolau yng nghwmni'r Côr Meibion yn Hendy-gwyn yn y Tabernacl – da iawn blant!

Bu'r tymor yn un hynod o brysur ac yn gyffrous. Mae disgyblion wedi bod yn gweithio'n galed yn ymarfer ar gyfer eu perfformiadau Nadolig, Prickly Hay a 'Traitors o Whit-lahem'. Ar yr un pryd, mae pob dosbarth wedi cymryd rhan yn Wythnos Entrepreneuriaeth, gan gynllunio a chreu eitemau i'w gwerthu yn ein digwyddiad menter Nadolig. Ac i orffen y tymor, bydd yr ysgol gyfan yn teithio i'r Pantomeim Snow White yng Nghaerfyrddin.

Yn olaf, hoffem estyn ein diolch i rieni a ffrindiau Ysgol Llys Hywel am drefnu ein Bingo Nadolig blynyddol. Rydym yn gwerthfawrogi'n fawr eich cefnogaeth barhaus. Hoffwn ddymuno Blwyddyn Newydd dda i bawb!



**Rhai o dysgyblion yn canu yn Tabernacl.**

## Sefyll ar y Sgwâr: Sioe Gerdd Jiwcbocs newydd yr Eisteddfod yn dathlu etifeddiaeth Ail Symudiad

Roedd hi'n ddiwrnod corawl y byd ar Rhagfyr 14eg, a dyma pryd ghwnaeth trefnwyr yr Eisteddfod Genedlaethol gyhoeddi manylion prosiect côr Eisteddfod 2026.

Trwy gyfuno pŵer corawl, stori newydd a thiwns bachog Ail Symudiad, bydd Sefyll ar y Sgwâr yn un o uchafbwyntiau artistig ac emosiynol Eisteddfod Genedlaethol y Garreg Las. Mae'r cynhyrchiad arbennig hwn yn gyfle i ailgysylltu â cherddoriaeth sy'n rhan annatod o'n hunaniaeth ddiwylliannol, a'i chyflwyno i gynulleidfa newydd.

Bydd prosiect côr Eisteddfod 2026 yn dod â sioe gerdd jiwcbocs newydd sbon i'r llwyfan, wedi'i seilio ar ganeuon Ail Symudiad, gyda sgript gan Nico Dafydd a Mari Elen. Cynhelir y perfformiadau yn y Pafiliwn nos Sadwrn, 1 Awst, a nos Lun, 3 Awst.

Mae'r cynhyrchiad yn gyfle unigryw i'r gymuned leol a Chymru gyfan ddathlu etifeddiaeth eiconig Richard ac Wyn Jones (Fflach) ac Ail Symudiad – un o fandiau mwyaf dylanwadol y sin roc Gymraeg. Trwy eu geiriau craff a'u harmonïau bachog, llwyddodd y grŵp i greu caneuon a drodd yn glasuron, ac mae eu dylanwad yn parhau'n fyw hyd heddiw. Roedd y ddau yn feibion eu milltir sgwâr, ac mae nifer o'u caneuon yn sôn yn uniongyrchol am yr ardal – sef ardal Eisteddfod y Garreg Las eleni.

Enwyd y sioe ar ôl albwm cyntaf y grŵp, gan dalu teyrnged i'r gymysgedd unigryw o ddyfeisgarwch, hiwmor a gonestrwydd creadigol a nodweddai gwaith Richard ac Wyn – rhinweddau sy'n parhau i ysbrydoli cenedlaethau o gerddorion.

Siwan Llynor fydd yn cyfarwyddo'r sioe, gyda Steffan Rhys Williams yn Gyfarwyddwr Cerdd ac yn arwain ar y trefniannau cerddorol. Mae'r tîm corawl – Dan Edwards-Phillips, Trystan Phillips, Einir Dafydd, Catrin Davies a Catrin Morris – yn dod â thalentau corawl o ddalgylch eang yr Eisteddfod ynghyd.

Cynhelir yr ymarferion yn Ysgol Aberteifi, Theatr y Gromlech ac Ysgol Caer Elen, gan roi cyfle i bobl o bob rhan o'r ardal gymryd rhan. Bydd yr ymarfer cyntaf ar 2 Chwefror, ac mae croeso i unrhyw un sydd â diddordeb gofrestru yma: Côr Eisteddfod 2026 | Eisteddfod

Mae'r sioe'n mynd â ni'n ôl i'r 1950au, i dref glan-môr yng Ngorllewin Cymru.


Mewn stori sy'n amlygu tensiwn rhwng uchelgais a dyletswydd teuluol, a chariad at yr ardal yn erbyn datblygiad masnachol, mae Sefyll ar y Sgwâr yn adrodd hanes sy'n siŵr o daro deuddeg gyda chynulleidfaoedd o bob oed.

Meddai Nico Dafydd, "Cefais fy magu yng nghanol sŵn cerddoriaeth Richard ac Wyn – roedd caneuon Ail Symudiad yn rhan o fy nghartref, fy nheulu a'm cymuned. Mae'n fraint a her braf cael cyfle i greu stori newydd sy'n sefyll ochr yn ochr â'r alawon a'r geiriau sy'n golygu cymaint i ni fel ardal. Mae Sefyll ar y Sgwâr yn deyrnged, ond hefyd yn wahoddiad i gynulleidfaoedd newydd ddarganfod y trysor mawr yma o'n diwylliant."

Bydd côr yr Eisteddfod hefyd yn chwarae rhan amlwg yn ystod y Gymanfa Ganu ar lwyfan y Pafiliwn, nos Sul 2 Awst, gan arwain y canu cynulleidfaol a chyflwyno dau ddarn clasurol fel eitemau cerddorol ychwanegol. Un o ddarnau'r côr fydd trefniant corawl Eric Jones o eiriau Waldo Williams, 'Y Tangnefeddwyr'. Bydd yr ail ddarn yn cael ei gadarnhau yn fuan.

Cynhelir Eisteddfod Genedlaethol y Garreg Las yn Llantwd, gogledd Sir Benfro, o 1–8 Awst 2026. Am ragor o wybodaeth, ewch i www.eisteddfod.cymru.

Cynhyrchiad: Eisteddfod Genedlaethol Cymru, gyda chymorth Ymddiriedolaeth Fflach.




CYFRES wenfro

# Codi Hwyl

**CYSTADLEUAETH Cyfle i un darllenydd lwcus ennill llyfr o gyfres Wenfro**

Un Hen Galan, fe ddaeth criw hwyliog i Iet-wen i ddymuno Blwyddyn Newydd Dda i bawb oedd yn y tŷ.
**Fedrwch chi ddarganfod enw'r cymeriad sy'n gwisgo cynfas wen a rhubanau lliwgar?**




**Anfonwch eich ateb at wenfro.cymru@gmail.com Dyddiad cau: 28/02/26**

Doti Sion yw enillydd Cystadleuaeth Calan GWEaf

Ateb: 20 o gorynnod oedd yn guddio ymysg y pwmpenni brawychus.

Mae Wenfro yn gynllun addysgol cynhwysfawr ar gyfer y Cyfnod Sylfaen. Cyhoeddir y gyfres gan Gomer/Atebol. **www.wenfro.cymru**

Ⓟ y testun a'r lluniau: Llinos Mair © 2026

**Bydd enw enillydd y gystadleuaeth yn cael ei gyhoeddi cyn hir.**

LYNDON GEORGE

ARBENIGWR LAND ROVER ANNIBYNNOL

MOT

•CEIR •BEICIAU MODUR •FANIAU •4x4

**Offer Diagnostig Diweddaraf**



**Arbennigwyr Land Rover yn San Clêr, Sir Gaerfyrddin**

Yr ydym yn arbenigo mewn gwasanaeth, rhannau spâr, diagnosis ac atgyweiro pob model o Land Rover.

Gyda dros 20 mlynedd o brofiad yn gwasanaethu Land Rover, yn cyflogi tîm gwybodus sydd yn gwneud yn siwr fod eich Land Rover chi yn mynd cystal â newydd.

•RHANNAU SPAR •GWASANAETH •TEIARS •BATRIS•WELDIO •TRACIO PEDAIR OLWYN •TYMHERU AER

**Ffôn: 01994 232960 • Symudol: 07968 868313**

Garej Blaenwaun cyf., Heol yr Orsaf, San Clêr. SA33 4BP








Jones Login

Teithiau o Safon

Quality Coach Travel

**Login**
**Hendygwyn**
**Sir Gaerfyrddin**
**SA34 0UX**
**Ffôn: 01437 563277**
**www.joneslogin.co.uk**



| | | Nifer y dyddiau |
|---|---|---|
| **Chwefror 2026** | | |
| Sad 7 | *Sioe Gerdd - Here & Now (Cerddoriaeth Steps)* | 1 |
| Llun 16 | **Gwesty Warner - Holme Lacy** | *5 |
| Sad 18 | *Sioe Gerdd Tina Turner, Caerdydd* | 1 |
| **Mawrth 2026** | | |
| Gwe 20 | **'A Fab 4 Days in Liverpool'** | *4 |
| Sad 21 | *Sioe Gerdd - Barnum, Caerdydd* | 1 |
| Iau 26 | ● *Shen Yun, Abertawe* | 1 |
| **Ebrill 2026** | | |
| Llun 13 | **'Avon's Calling'** | *5 |
| Sul 19 | **Te Prynhawn Brenhinol yn Windsor** | 2 |
| **Mai 2026** | | |
| Llun 11 | **Canolbarth Cudd Iwerddon** | *6 |
| Sad 16 | *Sioe Gerdd - Stori Buddy Holly, Caerdydd* | 1 |
| **Mehefin 2026** | | |
| Llun 1 | **Fforiwr Arfordir y De** | *5 |
| Sad 6 | *Sioe Gerdd - Miss Saigon, Caerdydd* | 1 |
| Sul 7 | **Te Prynhawn yng Nghaerfaddon** | 3 |
| Llun 8 | **Gwesty Warner - Neuadd Thorseby** | *5 |
| Sad 13 | **Rheilffordd Mynydd Aberhonddu** | 1 |
| Sad 13 | ● *Sioe Gerdd - Waitress, Caerdydd* | 1 |
| Maw 16 | ● *Take That, Caerdydd (Bws yn unig, dim tocyn)* | 1 |
| Mer 17 | **Diwrnod y Merched - Royal Ascot** | 3 |
| Sad 20 | *Sioe Gerdd - Legally Blonde, Caerdydd* | 1 |

| | | Nifer y dyddiau |
|---|---|---|
| **Mehefin 2026** | | |
| Llun 22 | **Ynys Mannaw** | *6 |
| Sad 27 | *Drama - Fawlty Towers, Caerdydd* | 1 |
| **Gorffennaf 2026** | | |
| Sad 4 | **Yr Alban - Highland Fling** | 7 |
| Sad 11 | ● *Sioe Gerdd - Annie, Caerdydd* | 1 |
| Maw 21 & Mer 22 | Sioe Frenhinol Cymru | 1 |
| Llun 27 | **Llandudno** | *5 |
| **Awst 2026** | | |
| Llun 3, Mer 5 a Gwe 7 | Eisteddfod ardal 'Y Garreg Las' | 1 |
| **Medi 2026** | | |
| Llun 7 | **Caerwynt a'r Goedwig Newydd** | *5 |
| Sad 12 | **Sioe Gerdd Paddington** | 2 |
| Llun 14 | ● **Gwesty Warner - Castell Studley** | *5 |
| Llun 21 | **Eastbourne** | *5 |
| **Hydref 2026** | | |
| Iau 1 | **Swindon ac Ysbryd Arloesol y Cotswolds** | *5 |
| Gwe 9 | **Gwesty Warner - Tŷ Littlecote** | *4 |
| Sad 17 | ● **ABBA Voyage** | 2 |
| Sad 24 | ● *Sioe Dirty Dancing, Caerdydd* | 1 |
| Llun 26 | **Ynys Wyth** | *5 |
| **Tachwedd 2026** | | |
| Gwe 6 | **Twrci a Tinsel, Torquay** | *4 |
| Sad 28 | **Gwyl Olau 'Glow' RHS Wisley** | 2 |

***Gwasanaeth Drws i ddrws ar y teithiau yma / ● = Teithiau newydd sydd ddim yn llyfryn 2026**

**Gallwch archebu ar lein, dros y ffôn, neu mewn person yn ein swyddfa**



# Bysiau Cwm Taf

*Gwyliau o safon am brisiau cystadleuol*



## TEITHIAU 2026

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gwe 9fed Ion | PENWYTHNOS o fwynhau yn y BELGRAVE SANDS, TORQUAY | £290 | 4 Diwrnod |
| Gwe 23ain Ion | Cerddoriaeth Teyrnged llawn hwyl yn BABBACOMBE | £315 | 4 Diwrnod |
| Sul 8fed Chwef | LLANDUDNO Teithio'r moroedd mawr dros nos i wahanol wledydd | £565 | 5 Diwrnod |
| Gwe 13eg Chwef | WESTON SUPER MARE | £345 | 4 Diwrnod |
| Llun 16eg Chwef | DISNEYLAND PARIS (Amser gwyliau Ysgol, prisiau teulu) | Ffoniwch | 4 Diwrnod |
| Llun 23ain Chwef | (Newydd) HARROGATE "Super Singles" Ystafelloedd Sengl yn unig | £560 | 5 Diwrnod |
| Gwe 27ain Chwef | CAERNARFON Clive a'i Ffrindie yn rocio Gwesty'r CELT (Hwyl di ri) | £280 | 3 Diwrnod |
| Mer 4ydd Mawrth | RYGBI 6 Gwlad IWERDDON v CYMRU yn DULYN ( 1 - Stillorgan) | £475 | 4 Diwrnod |
| Mer 4ydd Mawrth | RYGBI 6 Gwlad IWERDDON v CYMRU yn DULYN ( 2 - Bonington) | £475 | 4 Diwrnod |
| Mer 4ydd Mawrth | RYGBI 6 Gwlad IWERDDON v CYMRU yn DULYN (3 - Enniscorthy) | £385 | 4 Diwrnod |
| Gwe 6ed Mawrth | (Newydd) Penwythnos dirgelwch y llofruddiaeth yn TORQUAY | £385 | 4 Diwrnod |
| Iau 12fed Mawrth | Darganfyddwch ardal DOC MARTIN yn ST AGNES, arfordir CERNYW | £450 | 5 Diwrnod |
| Llun 16eg Mawrth | (Newydd) DAWLISH WARREN ac arfordir DYFNAINT | £445 | 4 Diwrnod |
| Gwe 20fed Mawrth | LOOE, arfordir Cernyw, a'r "EDEN PROJECT" | £355 | 4 Diwrnod |
| Gwe 27ain Mawrth | Penwythnos yn EFROG a'r ardal | £350 | 4 Diwrnod |
| Maw 7fed Ebrill | ???? TAITH DDIRGEL MIS EBRILL ???? | £595 | 5 Diwrnod |
| Gwe 10fed Ebrill | TORQUAY, TOTNES a tê a chacen ar daith Cwch ar yr Afon Exe | £385 | 4 Diwrnod |
| Mer 15fed Ebrill | Blas o Gymru yng Nghwesty'r TYNEDALE, LLANDUDNO | £590 | 5 Diwrnod |
| Sul 19eg Ebrill | (Newydd) CHELTENHAM, TEWKESBURY a'r COTSWOLD's | £595 | 5 Diwrnod |
| Gwe 24ain Ebrill | (Newydd) PASHLEY MANOR - "Tulip Festival" | £285 | 3 Diwrnod |
| Llun 27ain Ebrill | (Newydd) BOURNEMOUTH a'i Chelf Ysblennydd | £515 | 5 Diwrnod |
| Sad 2ail Mai | Teithiau amrywiol o amgylch Ynys JERSEY | £865 | 8 Diwrnod |
| Sad 9fed Mai | (Newydd) ALPAU FFRAINC, CHAMONIX a Llyn ANNECY | £1,285 | 8 Diwrnod |
| Llun 11fed Mai | Rheilffyrdd Rhamantus LLANBERIS a GOGLEDD CYMRU | £595 | 5 Diwrnod |
| Sul 17eg Mai | IWERDDON Bantry a'r Gulf Stream Coast | £745 | 6 Diwrnod |
| Gwe 22ain Mai | SIOE FLODAU CHELSEA | £465 | 3 Diwrnod |
| Sul 24ain Mai | Agêr a Mordaith Afon yn DYFNAINT a GWLAD YR HAF | £575 | 5 Diwrnod |
| Gwe 29ain Mai | WETHERSPOONS WANDERER | £285 | 3 Diwrnod |
| Llun 1af Mehef | Amser Rhamantus yn RYDE ar YNYS WYTH | £620 | 5 Diwrnod |
| Sul 7fed Mehef | Afon Frenhinol, Trefi a Gerddi i'w Cofio yn ardal Llundain | £595 | 5 Diwrnod |
| Sul 14eg Mehef | Taith Frenhinol Albanaidd, BALMORAL, GLAMIS ac Arwyr yr ALBAN | £870 | 7 Diwrnod |
| Llun 22ain Mehef | HARROGATE a'r YORKSHIRE DALES | £585 | 5 Diwrnod |
| Gwe 26ain Mehef | ?????????? TAITH DDIRGEL MEHEFIN ?????????? | £575 | 4 Diwrnod |
| Maw 30ain Mehef | ST ANTON a Golygfeydd Godidog o Fynyddoedd y SWISDIR | £1,575 | 8 Diwrnod |
| Sul 5ed Gorff | GOGLEDD IWERDDON ar ei Orau | £899 | 6 Diwrnod |
| Gwe 10fed Gorff | SIOE FLODAU BADMINTON | £365 | 3 Diwrnod |
| Sul 12fed Gorff | Agêr a Mordaith Afon yn Ardal y Llynnoedd CUMBRIA | £685 | 5 Diwrnod |
| Sul 19eg Gorff | LLANDUDNO a Harddwch GOGLEDD CYMRU | £615 | 5 Diwrnod |
| Gwe 24ain Gorff | WORCESTER a CWM HAFREN | £465 | 4 Diwrnod |
| Llun 27ain Gorff | TAITH DDIRGEL GYFRINACHOL YR HAF | £610 | 5 Diwrnod |
| Sul 2ail Awst | CYFRINACHAU CUDD SWYDD BEDFORD | £595 | 5 Diwrnod |
| Mer 5ed Awst | BORDEAUX, DORDOGNE ac Arfordir yr Iwerydd (Mordaith ar Afon) | £2,100 | 9 Diwrnod |
| Llun 10fed Awst | PENNINE EXPLORER | £530 | 5 Diwrnod |

# CHWARAEON

## Clwb Rygbi San Clêr

Ar ôl y fuddugoliaeth ddiweddar yng Nghydweli, ein prawf nesaf oedd gêm gartref yn erbyn ein cymdogion o Dalacharn. Chwaraewyd y gêm ar Rhagfyr 13eg o flaen torf wych a gyda thywydd braf roedd y timau, y gwylwyr a'r noddwyr yn edrych ymlaen at y gêm. Dechreuodd Talacharn yn gryf ac yn ystod y 15 munud cyntaf roeddent yn dominyddu'r chwarae a dim ond amddiffyn cryf y Seintiau a gadwodd y gwrthwynebwyr allan. Yn y pen draw sgoriodd Talacharn 3 phwynt. Parhaodd y gêm gyda'r amddiffynfeydd yn dal yn gadarn er bod y Seintiau'n adeiladu tiriogaeth ac roedd y meddiant yn nwylo'r tîm cartref ond methwyd â manteisio ar gyfleoedd i groesi'r llinell a'r sgôr hanner amser oedd 0 – 3.
Dechreuodd yr ail hanner gyda'r blaenwyr yn gwneud rhywfaint o gynnydd da. Llwyddwyd i droi pwysau parhaus yn bwyntiau gyda'r cefnwr Dafydd Waters yn croesi'r llinell i sgorio. Methwyd â throsi gan adael y sgôr yn 5 - 3. Parhaodd y gêm gyda'r ddau dîm yn gwthio'n galed ond yn y pendraw gyda symudiad gwych gan y cefnwr Dafydd Waters, a lwyddodd i dorri trwy amddiffyn Talacharn a'r asgellwr Dafydd Rees yn sgorio. Y sgôr ar y diwedd oedd 10-3 gyda'r Seintiau yn llwyddo i amddiffyn eu mantais.
Gêm oddi cartref yn Llambed oedd nesaf gyda'r Seintiau yn ceisio eu 3ydd buddugoliaeth i ddial am y golled 10 - 15 ar ddechrau'r tymor. Chwaraeodd y ddau dîm yn dda a'r cyfleoedd yn gyfyngedig, er i Lambed fanteisio ar giciau o'r smotyn gyda chiciau rhagorol. Llwyddodd Che Thomas gyda chais gosb a chais heb ei drosi gan Gino Setero i'r Seintiau a 12-8 oedd y sgôr ar yr hanner.
Ar ôl yr egwyl cafodd y ddau dîm gyfleoedd gyda'r sgôr yn 29 - 20 yn dilyn cais arall gan Gino Setero a droswyd gan Che Thomas. Cic o'r smotyn arall, gyda'r Seintiau yn rhedeg ar eu hôl a Brandon Davies yn sgorio ond heb ei drosi. Yn hwyr yn y gêm, manteisiodd Llambed ar gamgymeriad i fynd â'r sgôr i 37 - 20.
Byddwn yn sicr yn adfyfyrio ar ein perfformiad er mwyn datblygu yn y flwyddyn newydd gyda gemau ym mis Ionawr - Waunarlwydd (bant), Felinfoel (gartref), Yr Hendy (bant), Ucheldiroedd Abertawe (gartref), Dinbych y Pysgod (bant). Mae mis prysur o'n blaenau!
Croesawodd ein hieuenctid Grymych i Barc Griffith Jones ar y 6ed o Ragfyr ym Mhlât Cenedlaethol Ieuenctid a sicrhau'r fuddugoliaeth 18 - 10 yn erbyn tîm a oedd wedi'u hyfforddi'n dda. Yn y rownd nesaf (yr 8 olaf) byddwn yn cael ein herio gartref yn erbyn Casllwchwr ar Chwefror 28ain. Yn dilyn y tywydd garw diweddar, croesawyd Ieuenctid Felinfoel yn y gynghrair ar Rhagfyr 20fed gyda buddugoliaeth 41 - 0.
Mwynhaodd y tîm datblygu drip oddi cartref i Aberaeron yn ôl ym mis Tachwedd. Er gwaethaf gêm dda, roedd Aberaeron yn gryf ar y diwrnod gan ennill 41 - 5.
Wrth i ni orffen 2025, dymunwn Blwyddyn Newydd Dda i bawb sy'n ymwneud â'r clwb a diolch am eich cefnogaeth barhaus.

*Gwyndaf Williams*





**Lluniau Chris Rees.**







## Clwb Pêl-droed Llanboidy

**Tymor 2025-26**

Mae Clwb Pêl-droed Llanboidy bellach hanner ffordd drwy dymor 2024-25, gyda'r tîm cyntaf a'r ail dîm wedi chwarae nifer o gemau erbyn hyn, er ddim llawer dros y mis neu ddwy ddiwethaf oherwydd y tywydd. Mae'r adran iau hefyd wedi chwarae nifer o gemau, ac yn aml yn chwarae ar foreau dydd Sadwrn.

**Tîm 1af**

Mae'r tîm cyntaf yn eistedd yn y 9fed safle yn Adran 1 Ceredigion ar hyn p bryd, a hynny ar ol chwarae 11 o gemau. Ers Tachwedd 1af, dim ond dwy o gemau maent wedi chwarae, gan golli un ac un gyfartal.

Mae'r canlyniadau isod:
Rhagfyr 13eg: Llanboidy 0-6 Llechryd
Ionawr 3ydd : Llanboidy 3-3 Crymych (Geth Scourfield x 2, Luke Brisco)

**2il Dîm**

Mae'r ail dîm sy'n chwarae yn Adran 3 Ceredigion yn nhymor 2025-26 yn eistedd yn y 6ed safle, a hynny ar ol chwarae 8 o gemau. Dim ond un gêm sydd wedi chwarae ers Tachwedd 1af, gan golli yn erbyn Crannog.

Mae'r canlyniadau dros y mis diwethaf isod:
Ionawr 3ydd: Crannog 8-2 Llanboidy (Rhys Griffiths, Will Abbott)
Mae ymarferion y timoedd 1af a'r 2il ymlaen bob nos Lun ar Astro Ganolfan Hamdden Caerfyrddin rhwng 8.00-9.00yh. Croeso cynnes i bawb.

**Adran Iau**

Mae'r timoedd adran Iau yn parhau i chwarae, a hynny fel arfer ar foreau Sadwrn. Diolch yn fawr iawn i'r holl hyfforddwyr sydd wedi bodloni cynorthwyo'r amryw o dimoedd hyd yma eleni. Rydym o hyd yn chwilio am chwaraewyr newydd. Croeso cynnes i bawb!

Cyn y Nadolig hefyd, buodd tîm dan 10 y Clwb, ynghyd a'u hyfforddwyr a rhieni yng Nghaerdydd i wylio Caerdydd yn erbyn Doncaster yn Stadiwm Dinas Caerdydd.



Diolch yn fawr iawn i'n holl noddwyr - rydym wir yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth barhaol i'r Clwb. Gan ei bod yn dymor newydd, rydym o hyd yn chwilio am noddwyr newydd, felly os oes diddordeb gyda chi; cysylltwch. Am fwy o wybodaeth, dilynwch neu cysylltwch gyda ni ar ein cyfryngau cymdeithasol.

*Rhodri Lewis*

## Clwb Rygbi Hendy Gwyn

**Dynion**

Rhagfyr 6ed - Coilli i ffwrdd yn erbyn Tycroes, 50-5 erbyn tim cryf iawn.
13eg - Ennill i ffwrdd yn erbyn Betws 23-43.
20fed - Colli adref 0-57 erbyn Athletic Caerfyrddin.
26ain - Y gem flynyddol ar Wyl San Steffan yn erbyn Arberth. Colli 38-0 ar yr egwyl a wedyn fel arfer yn sgorio pwyntiau yn yr ail hanner. Sgor terfynol 38-29.

**Menywod**

Dim ond un gem mae'r menywod wedi chwarae yn ddiweddar, yn erbyn Clwb Rygbi Cymry Caerdydd yn y plat, sgor tewrfynol yn 12-12. Mynnodd y dyfarnwr fod ddim chwarae amser ychwanegol i fod, ond roedd e'n anghywir. Dylen fod wedi chwarae 20 muned arall. ond fel ma nhw'n dweud " mae'r dyfarnwr wastod yn gywir", hyd yn oed pan mae'n gwneud camgymeriad! Pwnc llosg.

**Merched dan 12 a dan 14**

Mae merched dan 12 a dan 14 wedi cyrraedd rowndiau cyn derfynol y Cwpan, pob hwyl iddynt.

Gobeithio bydd y tywydd yn gwella fel ein bod gallu chwarae gemau ere mwyn cwblhau'r tymor.

*Suzanne Davies*

ARWYDDION A DYLUNIO
BOOMERANG
SIGN & DESIGN
01239 832 014
sales@boomerang-signs.co.uk
UNED 11A, PARC GWYNFRYN,
CRYMYCH, SIR BENFRO

Phil a Siôn Harries
SEIRI COED
Efail Fach
Henllan Amgoed
Ffôn:
01994 240857

Gwasanaeth Trydanol RMD Cyf
Robert W. R. Morgan
ECA CYMERADWYEDIG GAN NICEIC
17 Trevaughan Lodge
Hendygwyn ar Daf
SA34 0QF
Ffôn: 01994 240946 - Symudol: 07966 019281
e-bost: robrmd28@gmail.com